

Diweddariad ar Brosiect Wylfa Newydd Ionawr 2016



Rhagair

gan Alan Raymant

Prosiect Wylfa Newydd ydy ein hymrwymiad ni i Ynys Môn. Bydd yn fuddsoddiad mawr yn yr Ynys ac yn helpu i sicrhau ei dyfodol economaidd yn y tymor hir.


Wrth i ni ymdrechu i wneud hyn rydyn ni'n cydnabod ein cyfrifoldeb i ddiogelu ac i wella nodweddion unigryw'r rhan brydferth hon o Gymru, sy'n cynnwys ei hiaith a'i thirwedd.

Roedden ni wedi gorffen cam cyntaf ein hymgyngoriad cyn ymgeisio yn 2014 ac mae eich adborth chi wedi helpu i siapio ein cynigion. Wrth gwrs, mae'r Prosiect wedi dod yn ei flaen yn dda ers hynny ac rydyn ni nawr yn barod i rannu ein cynlluniau diweddaraf â chi. Byddwn yn gwneud hyn mewn dwy ffordd dros y misoedd nesaf, yn gyntaf drwy nifer o arddangosfeydd agored ac wedyn drwy sesiynau gweithdy a fydd â ffocws penodol. Rydyn ni'n bwriadu cynnal y sesiynau gweithdy hyn ar draws Ynys Môn.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bob rhan o'r Prosiect ac rydyn ni'n gofyn nifer o gwestiynau lle gall eich adborth chi ein helpu i siapio datblygiad y Prosiect. Felly cymrwch ran a rhwch eich barn – mae eich safbwyntiau'n cyfril!

Wrth i hyd a lled y Prosiect ddod yn gliriach ac wrth i ni ddeall mwy am effeithiau a manteision agweddau gwahanol, byddwn yn dod yn ôl at y gymuned yn nes ymlaen eleni gyda chynigion ein Prosiect wedi'u mireinio fel rhan o'n hail gam o ymgynghori cyn ymgeisio.

Mae ein gwefan: www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad yn cynnwys manylion y digwyddiadau byddwn ni'n eu cynnal dros y misoedd nesaf. Rydyn ni'n edrych ymlaen at gael cwrdd â chi a chael eich adborth.



Alan Raymant



Prif Swyddog Gweithredu
Pŵer Niwclear Horizon



EIN GWELEDIGAETH

Rydyn ni'n credu bod taer angen pŵer niwclear newydd yn y Deyrnas Unedig er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r her hollbwysig a chymhleth o ddarparu dyfodol ynni cynaliadwy. Bydd Horizon yn darparu ynni sicr, fforddiadwy a charbon isel ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Y dogfennau sydd ar gael fel rhan o'r Diweddariad hwn ar y Prosiect

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion ein Prosiect ar hyn o bryd ac mae'n adeiladu ar y wybodaeth a oedd ar gael yn ystod cam cyntaf ein hymgyngoriad cyn ymgeisio yn 2014. Bydd yn egluro sut mae ein Prosiect wedi symud ymlaen yn ystod 2015, gan gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael a gofyn am eich adborth lle rydyn ni'n meddwl y byddai hynny'n arbennig o ddefnyddiol i ddatblygu ein cynigion ymhellach.

Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn cynnwys

- Y ddogfen hon, Diweddariad ar Brosiect Wylfa Newydd (ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg)
- Taflenni Ffeithiau i grynhoi ein dulliau gweithredu strategol a gwybodaeth am bynciau rydyn ni'n gwybod sydd o ddiddordeb arbennig i bobl (ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg)
- Crynodeb o'r Adborth i Gam Un yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio

Gallwch chi hefyd lwytho'r wybodaeth hon i lawr oddi ar ein gwefan yn: www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad



RHAGOR O WYBODAETH

CADWCH LYGAD AR AGOR AM YR EICONAU HYN DRWY'R DDOGFEN



CWESTIWN

Rydyn ni wedi cynnwys cwestiynau am elfennau o'r Prosiect lle gallai eich mewnbwn chi fod yn ddefnyddiol dros ben. Mae'r marc cwestiwn yn dangos pryd dylech chi edrych ar y ffurflen adborth, sy'n dod gyda'r ddogfen hon.



RHAGOR O WYBODAETH

Mae hyn yn rhoi rhagor o wybodaeth fanwl am y Prosiect.



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae hyn yn tynnu sylw at agweddau penodol o'n Prosiect a allai fod o ddiddordeb i chi.

Canllaw cam-wrth-gam i'r ddogfen hon

1

Dewch o hyd i'r wybodaeth sydd o ddiddordeb i chi

Mae llawer iawn o wybodaeth ar gael am ein Prosiect, ond rydyn ni'n gwybod y bydd rhai meysydd sydd o ddiddordeb arbennig i chi. Bydd y canllaw defnyddiol hwn yn eich helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth rydych chi eisiau dod o hyd iddi'n gyflym ac yn hawdd.



LLETY GWEITHWYR

Edrychwch ar dudalen 29 i gael gwybod mwy am ein cynigion ar gyfer darparu llety i weithwyr yn ystod y cam adeiladu.



GWELLA FFYRDD

Edrychwch ar dudalen 41 i gael gwybod am ein cynigion i wella ffyrdd.



Y GYMRAEG A'I DIWYLLIANT

Edrychwch ar dudalen 47 i gael gwybod mwy am beth rydyn ni'n ei wneud i ddiogelu ac i wella'r Gymraeg a'i diwylliant.



MANTEISION CYMUNEDOL

Edrychwch ar dudalen 57 i weld sut rydyn ni'n bwriadu darparu manteision cymunedol.



YR AMGYLCHEDD

Edrychwch ar dudalen 43 i gael gwybodaeth am yr amgylchedd cyfagos a'n syniadau ar hyn o bryd ynghylch mesurau lliniaru.



SWYDDI A SGILIAU

Edrychwch ar dudalen 51 i gael rhagor o wybodaeth fanwl am y mathau o swyddi a fydd ar gael a'n rhaglen hyfforddiant a sgiliau arfaethedig er mwyn cynyddu'r cyfleoedd am gyflogaeth leol.

2

Cymrwch ran...

Y ffordd orau o gymryd rhan ydy drwy sgwrsio â ni wyneb yn wyneb a llenwi ein ffurflen adborth. Bydd nifer o gyfleoedd i gwrdd â ni yn gynnar yn ystod 2016 a bydd aelodau o'n tîm ar gael i ateb eich cwestiynau a thrafod unrhyw sylwadau neu bryderon sydd gennych chi.

**DIGWYDDIADAU**

Byddwn ni'n cynnal digwyddiadau ar draws Ynys Môn lle byddwch chi'n gallu gweld gwybodaeth am Brosiect Wylfa Newydd a chwrdd â'r arbenigwyr o'n tîm. Bydd siaradwyr Cymraeg ar gael ym mhob digwyddiad.

**GWEITHDAI**

Ddechrau'r gwanwyn byddwn ni'n cynnal cyfres o weithdai ar draws yr Ynys i siarad â chi'n fanylach am y pynciau sydd o fwyaf o ddiddordeb i chi ac i'ch cymuned. Bydd rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn y digwyddiadau.

Peidiwch ag anghofio, os does gennych chi ddim amser i ddod i un o'n digwyddiadau, gallwch chi ein ffonio ni am ddim ar **0800 954 9516** neu anfon neges e-bost at **ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com** unrhyw bryd.

3

Rhowch eich barn

Y peth pwysicaf un ydy rhoi eich barn am ein cynigion. Mae eich safbwyntiau'n cyfri! Gallwch anfon eich adborth atom mewn sawl ffordd a hynny'n Gymraeg neu yn Saesneg. Gwnewch yn siŵr bod eich adborth yn ein cyrraedd erbyn 24 Mawrth 2016.

**LLENWCH EIN FFURFLEN ADBORTH AR-LEIN**

Ewch i'n gwefan a llenwi ein ffurflen ar-lein:

www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad

**LLENWCH EIN FFURFLEN ADBORTH BAPUR**

Llenwch un o'n ffurflenni adborth papur a'i chyflwyno yn un o'n digwyddiadau neu ei phostio atom am ddim.

**YSGRIFENNWCH ATOM NI**

Anfonwch eich safbwyntiau atom ni mewn neges e-bost at **ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com** neu lythyr at FREEPOST Horizon Nuclear Power Consultation

Trosolwg o'r Prosiect

Mae'r DU yn wynebu sialensiau ynni sylweddol dros y blynyddoedd nesaf ac mae angen iddi fuddsoddi mewn cynhyrchu trydan carbon isel.

Er mwyn cefnogi hyn, rydyn ni'n bwriadu adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn, i'r gorllewin o Gemaes ac i'r de orllewin o leoliad gorsaf bŵer bresennol Magnox. Byddai Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd yn cynhyrchu 2,700 megawatt o drydan, gan ddarparu digon o bŵer carbon isel sicr ar gyfer tua pum miliwn o gartrefi am ddegawdau. Bydd hefyd yn creu llawer iawn o gyfleoedd cyflogaeth tymor hir a manteision economaidd i Ynys Môn a gogledd Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect drwyddo draw, gan gynnwys ein cynigion ar gyfer yr Orsaf Bŵer, y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'r Datblygiadau Cysylltiedig.

YR ORSAF BŴER

Yr Orsaf Bŵer ydy'r orsaf bŵer niwclear newydd sy'n cael ei chynnig. Bydd yn cynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU (UK ABWR), a fydd yn cael eu cyflenwi gan Hitachi-GE Nuclear Energy, Ltd. (Hitachi-GE), nodweddion a strwythurau ategol ac offer cysylltiedig a fydd yn cael eu hadeiladu a'u gweithredu ar Ynys Môn.

Bydd angen gwneud gwaith adeiladu ar y tir o amgylch yr Orsaf Bŵer ac yn y dŵr ger Porth-y-pistyll. Bydd hyn yn cynnwys creu cyd-destun gweledol parhaol wedi'i dirweddu ar gyfer yr Orsaf Bŵer yn ogystal ag adeiladu ein system dŵr oeri, morgloddiau cysylltiedig a Chyfleuster Dadlwytho Morol.

CYFLEUSTERAU ODDI AR SAFLE'R ORSAF BŴER

Rhaid i ni hefyd ddatblygu rhai cyfleusterau sydd ar wahân i'r Orsaf Bŵer ond ddim yn rhy bell oddi wrthi. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleuster rheoli amgen mewn argyfwng a Labordy Arolygon Amgylcheddol ar gyfer yr Orsaf Bŵer a garej i storio cerbydau arbenigol. Mae rhagor o wybodaeth am y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer ar gael o dudalen 21 ymlaen yn y ddogfen hon.

DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG

Bydd y Datblygiadau Cysylltiedig yn cefnogi'r gwaith o ddarparu a gweithredu'r Orsaf Bŵer. Byddan nhw'n cynnwys gwaith fel gwella'r A5025, darparu llety dros dro i weithwyr adeiladu ac adeiladu cyfleuster parcio a theithio, canolfan logisteg a chanolfan ymwelwyr. Mae rhagor o wybodaeth am y Datblygiadau Cysylltiedig ar gael o dudalen 24 ymlaen yn y ddogfen hon.



CWESTIWN – CYFFREDINOL

Oes gennych chi unrhyw sylwadau cyffredinol am Brosiect Wylfa Newydd?



Yr amserlen a'r cyfnodau a gynigir ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd

Diweddariad ar y Prosiect

Rydyn ni wedi ymrwmo i ymgynghori'n effeithiol â'r gymuned y gallai ein Prosiect effeithio arni.

YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO CAM UN

Roedd cam cyntaf ein hymgynghoriad cyn ymgeisio wedi para am ddeg wythnos, gan ddechrau ym mis Medi 2014 a gan ddod i ben ym mis Rhagfyr 2014.

Er mwyn cael cynifer o bobl â phosibl i gymryd rhan yn y broses ymgynghori, roedden ni wedi postio cylchlythyrau; gosod hysbysebion ar draws yr Ynys; cynnal arddangosfeydd, sesiynau galw draw, stondinau gwybodaeth a chymorthfeydd agored; rhoi cyflwyniadau fel rhan o gyfarfodydd rheolaidd Grŵp Cyswllt y Prosiect; cwrrd â grwpiau 'anodd eu cyrraedd'; ac roedden ni wedi diweddarau ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a gwefan ein hymgynghoriad yn rheolaidd.

Gyda'i gilydd, cawsom ni 424 o ymatebion i gam cyntaf ein hymgynghoriad cyn ymgeisio, roedd 38 o'r rheini gan ymgynghoreion technegol.



ADRODDIAD AR YR ADBORTH I'R YMGYNGHORIAD

Rydyn ni wedi gweithio'n galed i ddadansoddi'r adborth a gawson ni ac rydyn ni wedi paratoi Crynodeb o'r Adborth i Gam Un yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ymatebion a ddaeth i law, yn disgrifio'r themâu cyffredin a oedd yn codi yn yr adborth ac yn nodi'r broses roedden ni wedi'i defnyddio i adolygu ac ystyried adborth wrth ddatblygu cynigion ein Prosiect.



Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYNNYDD EIN PROSIECT

Rydyn ni wedi cwrrd â nifer o'n hymgynghoreion technegol gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Swyddfa Rheoleiddio NiwcLEAR.

Mae'r trafodaethau hyn a'n dadansoddiad o'r adborth i gam cyntaf yr ymgynghoriad cyn ymgeisio wedi cyfrannu at y newidiadau i'n Prosiect yn ystod 2015 gan gynnwys:

- datblygu ein dewisiadau ar gyfer darparu llety i'n gweithwyr adeiladu
- datblygiadau mawr yn ein gwaith monitro amgylcheddol a'r asesiad economaidd-gymdeithasol
- datblygu nifer o strategaethau i gefnogi'r gwaith rydyn ni'n ei wneud – mae'r rhain yn cael eu crynhoi mewn cyfres o Daflenni Ffeithiau a fydd ar gael yn ein digwyddiadau
- newidiadau i gynllun meistr ein safle, gan gynnwys lleihau faint o ddeunyddiau a fydd yn cael eu cloddio, byddwn yn gwneud hyn drwy greu safle ar deras



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae ymgynghorai technegol yn golygu rhywun sydd â diddordeb penodol neu arbenigol yn y Prosiect fel ymgynghorai statudol neu fudiad cymunedol.



RHAGOR O WYBODAETH

Roedden ni wedi cyhoeddi Datganiad o Ymgynghori Cymunedol ym mis Medi 2014 a oedd yn amlinellu'r datblygiad roedden ni'n ei gynnig ar Ynys Môn, yn ogystal â'r ffordd roedden ni'n bwriadu ymgynghori â rhanddeiliaid a'r gymuned. Gan ein bod wedi newid amseriad ein hymgynghoriadau, rydyn ni wedi diweddarau ein Datganiad o Ymgynghori Cymunedol ac wedi ei ailgyhoeddi ym mis Ionawr 2016. Mae'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol sydd wedi'i ddiweddarau ar gael ar ein gwefan: www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad

Ein dull gweithredu strategol

Rydyn ni'n cydnabod y bydd rhai agweddau o'n Prosiect yn debyg o ofyn am sylw arbennig er mwyn gwneud yn siŵr dydyn ni ddim yn creu effeithiau ychwanegol ar gymunedau Ynys Môn.

Rydyn ni wedi datblygu nifer o strategaethau ar agweddau pwysig o'r Prosiect. Rydyn ni'n gwybod bod nifer o'r rhain o ddiddordeb penodol i'r gymuned ac rydyn ni eisiau clywed eich barn chi amdany'n nhw wrth i ni eu datblygu. Rydyn ni'n credu mai'r ffordd fwyaf priodol o fynd i'r afael â'r agweddau penodol hyn ydy drwy ganiatáu i chi ddylanwadu ar ein gwaith ar gam cynnar.

Er mwyn eich helpu i roi adborth ar ein strategaethau rydyn ni wedi paratoi Taflenni Ffeithiau i grynhoi ein cynigion. Rydyn ni hefyd wedi paratoi Taflenni Ffeithiau am bynciau rydyn ni'n gwybod sydd o ddiddordeb arbennig i bobl leol, gan gynnwys y Gymraeg a'i diwylliant a gwastraff ymbelydrol.

Dyma'r Taflenni Ffeithiau rydyn ni'n gofyn am adborth arny'n nhw:

- Yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant
- Strategaeth Bensaernïol
- Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu
- Strategaeth Ymgysylltu ag Addysg
- Strategaeth Swyddi a Sgiliau
- Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig
- Strategaeth Mynediad Cyhoeddus a Hamdden
- Strategaeth Manteision Cymunedol
- Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol
- Gwastraff ymbelydrol

Mae'r Taflenni Ffeithiau ar gael fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ac ar ein gwefan: www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad



CWESTIWN – DULLIAU GWEITHREDU STRATEGOL AR GYFER LLINIARU A GWELLA

Meddylwch am y pynciau a'r dulliau strategol rydyn ni'n eu cyflwyno yn ein Taflenni Ffeithiau:

- Strategaeth Bensaernïol
- Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu
- Strategaeth Ymgysylltu ag Addysg
- Strategaeth Swyddi a Sgiliau
- Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig
- Strategaeth Mynediad Cyhoeddus a Hamdden
- Strategaeth Manteision Cymunedol
- Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol
- Yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant
- Gwastraff ymbelydrol

Allwch chi ddisgrifio unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol rydych chi'n meddwl bydd y strategaethau rydyn ni'n eu cynnig yn eu cael ar eich ardal leol ac unrhyw syniadau byddech chi'n hoffi i ni eu hystyried wrth eu datblygu ymhellach? Yn eich ymateb cofiwch nodi pa strategaeth rydych chi'n cyfeirio ati.

Os oes gennych chi awgrymiadau ynghylch rhannau eraill o'r Prosiect a allai elwa o ddull gweithredu tebyg, bydden ni'n falch o glywed gennych chi.


Cynigion Prosiect Wylfa Newydd

LLEOLIAD AC ARDAL Y PROSIECT

Bydd prif adeiladau gweithredu'r Orsaf Bŵer yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Y prif eithriadau i hyn fydd y tri chyfleuster diogelwch sy'n gorfod bod oddi ar y safle (Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer). Bydd yr Orsaf Bŵer hefyd yn cael ei chefnogi gan Ddatblygiadau Cysylltiedig, a fydd oddi ar y safle yn gyffredinol.

Byddwn yn defnyddio termau gwahanol i ddisgrifio lle bydd rhannau gwahanol o'n Prosiect yn cael eu hadeiladu:

- **Safle'r Orsaf Bŵer:** yr ardal o dir a môr sy'n cael ei dangos lle bydd y rhan fwyaf o adeiladau, offer a strwythurau parhaol yr Orsaf Bŵer. Mae hyn yn cynnwys dau adweithydd niwclear, tyrbinau stêm, y system sugno dŵr oeri ac adeilad pŷmpiau, strwythurau gollwng, morgloddiau a'r Cyfleuster Dadlwytho Morol
- **Ardal Datblygu Wylfa Newydd:** yr ardaloedd o dir a môr sy'n cael eu dangos gan gynnwys Safle'r Orsaf Bŵer, a'r ardaloedd cyfagos a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer. Mae'r ardal hon yn dangos yr ardal fwyaf y byddai gweithgareddau adeiladu'r Orsaf Bŵer yn effeithio arni'n ffisegol a bydd yn cael ei defnyddio i ffurfio cyd-destun gweledol a nodweddion tirwedd yr Orsaf Bŵer weithredol
- **Oddi ar y Safle:** yr ardaloedd o dir sydd eu hangen ar gyfer y Prosiect sydd y tu hwnt i ffiniau Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae'r cydrannau a fyddai oddi ar y safle yn cynnwys y rhan fwyaf o'r Datblygiadau Cysylltiedig sydd eu hangen ar gyfer adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer, yn ogystal â'r hyn rydyn ni'n eu galw yn Gyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer.



Ardaloedd daearyddol y prosiect

Cynigion Prosiect Wylfa Newydd

NODWEDDION Y PROSIECT

Mae'r datblygiadau parhaol yn Safle'r Orsaf Bŵer yn cynnwys y prif offer a strwythurau gweithredol, gan gynnwys:

- **prif offer:** y rhannau hynny o'r Orsaf Bŵer sy'n golygu bod modd cynhyrchu ynni niwclear. Mae hyn yn cynnwys y ddau UK ABWR a'r adeiladau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â phob UK ABWR
- **offer cyffredin:** y rhannau hynny o'r Orsaf Bŵer sy'n gwasanaethu cynhyrchu pŵer ond sy'n cael eu rhannu rhwng y ddau UK ABWR
- **cyfleusterau, adeiladau, strwythurau a nodweddion cefnogol:** y rhannau hynny o'r Orsaf Bŵer sy'n angenrheidiol er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu a chynnal a chadw'r Orsaf Bŵer, gan gynnwys swyddfeydd, storfeydd a chyfleusterau diogelwch. Bydd y rhain hefyd yn cynnwys y Cyfleuster Dadlwytho Morol

ALLWEDD

Safle'r Orsaf Bŵer

Ardal Datblygu Wylfa Newydd

Yr Orsaf Bŵer

Yr Orsaf Bŵer

Offer cyffredin

Cyfleusterau, adeiladau, strwythurau a nodweddion cefnogol

Cynllun ffyrdd mewnol yr Orsaf Bŵer

Prif ffens y ffin

Y ganolfan rheoli argyfwng amgen a'r labordy arolygon ardal sy'n cael eu cynnig i gymryd lle rhai gorsaf bŵer bresennol Magnox

Gorsaf bŵer bresennol Magnox

Y ganolfan ymwelwyr arfaethedig

Meysydd parcio

Ffyrdd lleol


A5025

Y lleoliad dangosol ar gyfer yr adeilad Hyfforddi ac Efelychu

Llinellau Pŵer Uwchben Presennol

Y Cyfleuster Dadlwytho Morol

Aneddiadau



Cynllun yr Orsaf Bŵer

CYFLEUSTERAU ODDI AR SAFLE'R ORSAF BŴER


Bydd Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf BŴer ar wahân i Safle'r Orsaf BŴer ond ddim yn rhy bell oddi wrtho a byddan nhw'n rhan hollbwysig o'n trefniadau argyfwng. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen:** byddai hon wrth gefn i'r cyfleusterau rheoli a chyfathrebu
- **Labordy Arolygon Amgylcheddol:** byddai hwn yn darparu cyfleusterau i reoli arolygon radiolegol yn yr ardal leol, gan gynnwys rheoli offer sy'n monitro ymbelydredd
- **Garej Offer Argyfwng Symudol:** byddai hwn yn cadw nifer o gerbydau arbenigol

DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG

Mae datblygiadau cysylltiedig yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r Orsaf BŴer, a byddan nhw'n cynnwys:

- **gwella ffyrdd:** uwchraddio rhannau o'r A5025 er mwyn gwella mynediad a diogelwch.
- **cyfleuster parcio a theithio:** lle i drosglwyddo gweithwyr adeiladu o gerbydau preifat i ddulliau trafniadaeth sy'n cael eu rhannu fel bysiau gwennol i leihau traffig y Prosiect ar ffyrdd lleol
- **canolfan logisteg:** cyfleuster diogel dros dro lle gallwn reoli symudiadau lorïau i Safle'r Orsaf BŴer er mwyn lleihau'r effeithiau ar gymunedau
- **Llety Gweithwyr Dros Dro wedi'i ddarparu'n benodol oddi ar y safle:** er mwyn darparu math dros dro o lety a gwasanaethau allweddol i'r gweithwyr adeiladu. Byddai hyn yn golygu units ar fath o gampws mawr ar gyfer o leiaf 500 o weithwyr ym mhob lleoliad
- **canolfan ymwelwyr, gan gynnwys canolfan i dderbyn y cyfryngau:** yn debyg i ganolfan ymwelwyr bresennol Magnox. Bydd y cyfleuster hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae'r Orsaf BŴer yn cael ei gweithredu a'i rheoli yn ogystal â phynciau cysylltiedig er mwyn cefnogi addysg, twristiaeth ac ymgysylltu cymunedol
- **storfeydd oddi ar y safle:** cyfleuster oddi ar y safle lle gallwn ni dderbyn nwyddau allanol a chadw stociau o sbarion a nwyddau pan fydd yr Orsaf BŴer ar waith



Lleoliadau dangosol y cydrannau Oddi ar y Safle

Adeiladu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd

GWAITH GALLUOGI

Gwaith Galluogi ydy'r term rydyn ni'n ei ddefnyddio i ddisgrifio'r gweithgareddau sydd eu hangen er mwyn paratoi Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar gyfer adeiladu Gorsaf Bŵer. Er mwyn sicrhau bod y pŵer cyntaf yn cael ei gynhyrchu yn ystod hanner cyntaf y 2020au, bydd nifer o'r gweithgareddau hyn yn dechrau cyn cael gorchymyn cydsyniad datblygu, ac mae rhai ohonyn nhw ar waith yn barod.

PARATOI A CHLIRIO'R SAFLE

Bydd angen clirio Safle'r Orsaf Bŵer a'r ardal gyfagos o'r nodweddion sydd yno ar hyn o bryd fel coed, gwrychoedd, waliau ac adeiladau, ffyrdd a llwybrau troed, ac uwchbridd cyn gallu dechrau ar y gwaith o adeiladu'r Orsaf Bŵer. Rydyn ni hefyd angen sicrhau bod unrhyw rywogaethau a warchodir wedi cael eu symud yn ofalus o'r ardaloedd adeiladu, a fyddai'n cael eu ffensio i ffwrdd. Bydd angen gwneud gwaith i baratoi i lefelu rhannau o Safle'r Orsaf Bŵer drwy symud yr uwchbridd a gosod draeniau ar gyfer y safle.

Byddai ffyrdd cludo a chompowndiau yn cael eu creu yn barod ar gyfer yr offer adeiladu. Rydyn ni wrthi'n paratoi cais cynllunio ar gyfer y pecyn hwn o waith Paratoi a Chlirio Safle er mwyn ei gyflwyno yn nes ymlaen yn 2016.

Mae rhywfaint o'r gwaith rydyn ni'n bwriadu ei wneud fel rhan o'r gwaith o Baratoi a Chlirio'r Safle yn cynnwys:

- clirio'r holl lystyfiant a symud rhywogaethau a warchodir, yn unol â Thrwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop priodol
- dymchwel adeiladau a strwythurau sydd yno'n barod
- stripio'r arwyneb, gwyro cyrsiau dŵr a pharatoi ardaloedd o Ardal Datblygu Wylfa Newydd er mwyn derbyn llawer iawn o ddeunyddiau a fydd yn cael eu cloddio,
- codi a storio uwchbridd, fel sy'n cael ei ddangos yn y ffigur ar y dudalen gyferbyn
- codi ffensys adeiladu ar hyd y ffin
- cau Ffordd Cemlyn
- cyfyngu ar fynediad cyhoeddus ar hyd ffordd fynediad gorsaf bŵer bresennol Magnox
- cau a gwyro llwybrau troed
- gwaith cyfleustodau
- creu compowndiau adeiladu llai, a fydd yn cynnwys swyddfeydd, cyfleusterau lles a diogelwch yn ogystal â meysydd parcio

Gan ddechrau gyda'r gwaith o Baratoi a Chlirio'r Safle, byddai Safle'r Orsaf Bŵer a'r tir cyfagos yn cael ei ffensio a byddai'n dechrau edrych fel safle adeiladu mawr, gyda chlystyrau o adeiladau dros dro, offer adeiladu mawr a newidiadau i olygfeydd.



Y PRIF WAITH ADEILADU

Byddai'r cam Prif Waith Adeiladu yn dechrau ar ôl i ni gael caniatâd i adeiladu'r Orsaf Bŵer, gan gyd-daro â'r amserlen ar gyfer cwblhau'r Gwaith Galluogi, ac mae disgwyl y bydd hyn yn para am ryw naw mlynedd gyda'i gilydd.


Mae'r gweithgareddau a fydd yn cael eu gwneud yn ystod y Prif Waith Adeiladu yn cynnwys:

- gwaith cloddio mawr gan gynnwys lefelu a graddio'r safle, gan arwain at greu llwyfannau adeiladu ac ardaloedd storio ar gyfer adeiladu
- adeiladu ffordd fynediad newydd i'r Orsaf Bŵer
- creu compowndiau adeiladu dros dro mawr er mwyn gallu storio deunyddiau ac adeiladau gwaith dros dro
- adeiladu ffyrdd a phontydd cludo
- adeiladu offer gwneud concrit
- gwaith adeiladu morol gan gynnwys y morgloddiau, strwythurau sugno a gollwng y dŵr oeri a Chyfleuster Dadlwytho Morol
- adeiladu a defnyddio Llety Gweithwyr Dros Dro yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd
- gwaith cloddio dwfn a thwnelu i adeiladu sylfeini'r prif offer
- gwaith adeiladu cyffredinol holl adeiladau, cyfleusterau a strwythurau'r Orsaf Bŵer, a gosod yr holl offer mawr

COMISIYNU'R ORSAF BŴER

Mae comisiynu'n golygu cyfnod o brofion i sicrhau bod pob system ym mhob rhan o'r Orsaf Bŵer yn gweithio yn ôl y disgwyl. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y comisiynu'n cymryd tua dwy flynedd a hanner ar gyfer pob UK ABWR.





ALLWEDD

-  Ardal Datblygu Wylfa Newydd
-  Yr ardal ddangosol ar gyfer stripio'r uwchbridd - cam 1
-  Yr ardal ddangosol ar gyfer stripio'r uwchbridd - cam 2
-  Yr ardal ddangosol ar gyfer stripio'r uwchbridd - cam 3
-  Yr ardal ddangosol ar gyfer stripio'r uwchbridd - cam 4
-  1 Y lleoliad dangosol ar gyfer storio'r uwchbridd o gam 1 dros dro
-  2 Y lleoliad dangosol ar gyfer storio'r uwchbridd o gam 2 dros dro
-  3 Y lleoliad dangosol ar gyfer storio'r uwchbridd o gam 3 dros dro
-  4 Y lleoliad dangosol ar gyfer storio'r uwchbridd o gam 4 dros dro
-  Ein cynigion ar gyfer symud yr uwchbridd i leoliadau storio dros dro

Ein cynigion ar gyfer symud yr uwchbridd wrth Baratoi a Chlirio'r Safle

Gweithredu a Datgomisiynu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd

GWEITHREDU

Rydyn ni'n bwriadu gweithredu dau UK ABWR, a bydd disgwyl i bob un fod ar waith am 60 o flynyddoedd. Rydyn ni'n disgwyl cyflogi tua 850 o bobl yn yr Orsaf Bŵer yn ystod y cam gweithredu, a bydd y recriwtio'n dechrau yn gynnar yn ystod y cam adeiladu i sicrhau bod gennym ni weithlu medrus mewn lle mewn da bryd er mwyn gweithredu'r Orsaf Bŵer.


Yn unol â'r gofynion sydd wedi cael eu gosod gan reoleiddwyr, rydyn ni'n datblygu cynlluniau i fod yn barod ar gyfer gweithredu a bod yn barod ar gyfer argyfwng. Bydd ein Trwydded Safle Niwclear yn mynnu bod gennym ni gynlluniau digonol i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer argyfwng, a bydd yn rhaid i'n cynllun argyfwng gweithredol fod ar waith cyn i ni ddod â thanwydd niwclear i Safle'r Orsaf Bŵer. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys dull gweithredu fesul cam ar gyfer ymateb i argyfwng, gan nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd yn Safle'r Orsaf Bŵer, yn y cymunedau lleol, ar draws y rhanbarth ac wedyn ar draws y DU.

Mae'r trefniadau mewn argyfwng yn cynnwys tri chyfleuster oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer gan gynnwys Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen a Labordy Arolygon Amgylcheddol, Garej Offer Argyfwng Symudol a chanolfan i dderbyn y cyfryngau. Mae'r gofynion o ran dod o hyd i leoliad ar gyfer y cyfleusterau hyn yn cael eu trafod yn fanylach yn adrannau Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a Datblygiadau Cysylltiedig y ddogfen hon.

GWASTRAFF YMBELYDROL

Pan fydd ar waith, bydd yr Orsaf Bŵer yn creu gwastraff ymbelydrol. Mae disgwyl y bydd gwastraff ymbelydrol sydd â lefelau ymbelydredd isel ac isel iawn, fel menig ac oferôls sydd wedi'u halogi, yn cael eu gwaredu mewn cyfleusterau trwyddedig i ffwrdd oddi wrth Safle'r Orsaf Bŵer. Bydd angen i ddeunyddiau sydd â mwy o ymbelydredd yn ogystal â thanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio gael eu trin mewn ffyrdd gwahanol yn Safle'r Orsaf Bŵer cyn iddyn nhw fod yn barod i'w symud.

Un o'n prif adeiladau fydd yr adeilad ar gyfer gwastraff ymbelydrol. Bydd hwn yn cynnwys cyfleusterau i dderbyn gwastraff ymbelydrol gwlyb, a fydd wedyn yn cael ei drosglwyddo i'r cyfleusterau prosesu i'w drin yn briodol a'i storio yn y tymor byr. Byddai'r cyfleusterau hyn yn cael eu hadeiladu mewn da bryd i'w defnyddio ar ddechrau cam gweithredu'r Orsaf Bŵer.



Delwedd ddangosol o un adeilad adweithydd ABWR

Mae polisi'r Llywodraeth yn mynnu bod gennym ni gyfleusterau storio 'interim' tymor hirach ar gyfer tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol lefel ganolraddol a lefel uchel sych yn Safle'r Orsaf Bŵer. Byddai angen hyn arnom ni tua phum i ddeng mlynedd ar ôl dechrau cynhyrchu trydan yn yr Orsaf Bŵer. Mae'r rhain yn rhoi pwynt dal lle byddai ein ffrydiau gwastraff gwahanol yn cael eu storio mewn casgenni diogelu a fydd wedi cael eu dylunio'n arbennig. Byddai'r casgenni hyn yn aros yn Safle'r Orsaf Bŵer nes bod modd eu hailbecynnu i'w trosglwyddo i gyfleuster gwaredu gwastraff ymbelydrol cenedlaethol sy'n cael ei gynllunio gan lywodraeth y DU. Yn geidwadol rydyn ni'n amcangyfrif y byddai'r gwastraff ymbelydrol hwn yn aros yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd am hyd at 140 o flynyddoedd ar ôl gorffen cynhyrchu trydan, er bod astudiaeth bellach ar waith yn barod i edrych ar sut byddai modd cwtogi ar y cyfnod hwn.

Rydyn ni'n dal i ystyried dwy ardal ar gyfer codi'r adeiladau hyn i storio gwastraff ymbelydrol. Mae un i'r de orllewin o Safle'r Orsaf Bŵer ac mae'r llall i'r gogledd o Safle'r Orsaf Bŵer ar dir sy'n cael ei ddefnyddio gan orsaf bŵer bresennol Magnox ar hyn o bryd ac sy'n berchen i'r NDA.

Bydd angen i'n penderfyniad terfynol ynghylch y lleoliad ystyried nifer o faterion gan gynnwys mynediad priodol i gludo'r gwastraff ymbelydrol, ystyriaethau technegol a rheoleiddio ac astudiaeth bellach o'r effeithiau amgylcheddol.



RHAGOR O WYBODAETH

Rydyn ni wedi paratoi Strategaeth Gwastraff Ymbelydrol sy'n amlinellu sut byddwn ni'n delio â'r gwastraff ymbelydrol y byddwn yn ei gynhyrchu pan fydd yr Orsaf Bŵer ar waith. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein Taflen Ffeithiau am Wastraff Ymbelydrol, sydd ar gael ar ffurf copi caled yn ein digwyddiadau ac ar ein gwefan: www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad



ALLWEDD

Lleoliadau posibl i storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio, gwastraff ymbelydrol lefel ganolraddol a lefel uchel yn y tymor hir interim

Safle'r Orsaf Bŵer

Ardal Datblygu Wylfa Newydd

Yr Orsaf Bŵer

Y prif offer

Offer cyffredin

Cyfleusterau, adeiladau, strwythurau a nodweddion cefnogol

Prif ffens y ffin

Gorsaf bŵer bresennol Magnox

Meysydd parcio

Ffyrdd lleol

Y lleoliad dangosol ar gyfer yr adeilad Hyfforddi ac Efelychu

Llinellau Pŵer Uwchben Presennol

Y Cyfleuster Dadlwytho Morol

Lleoliadau dangosol ar gyfer storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio, gwastraff ymbelydrol lefel ganolraddol ac uchel

Gweithredu a Datgomisiynu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd

DATGOMISIYNU'R ORSAF BŴER

Ar ddiwedd y cam gweithredu 60 o flynyddoedd, bydd yr Orsaf Bŵer yn cael ei datgomisiynu a byddwn yn cael gwared ar yr adeiladau o'r safle gan reoli'r holl danwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a'r gwastraff ymbelydrol yn gyfrifol. Byddai cyflwr terfynol y safle yn cael ei gytuno gyda rheoleiddwyr a byddai modd cymeradwyo defnydd ar wahân i niwclear ar gyfer y safle. Er y bydd gennym raglen ddatgomisiynu ar gael ar gam cynnar o'r Prosiect, byddai'r gweithgareddau datgomisiynu'n cael eu cynllunio'n fanylach yn nes at adeg datgomisiynu'r Orsaf Bŵer. Bydd angen i ni wneud cais am ganiatâd ychwanegol ar yr adeg honno, a pharatoi asesiad o'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd.



RHAGOR O WYBODAETH

Rydyn ni eisoes yn cynllunio sut byddai modd i ni ddatgomisiynu er mwyn i ddyluniad ein Prosiect wneud y broses ddatgomisiynu'n fwy effeithlon yn y dyfodol. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y gwaith datgomisiynu'n cymryd rhyw 20 mlynedd ar ôl cau'r Orsaf Bŵer ond mae disgwyl i'r adeiladau gwastraff ymbelydrol a thanwydd sydd wedi'i ddefnyddio aros yn hirach, nes bydd hi'n bosibl eu trosglwyddo i gyfleuster gwaredu daearegol a fydd wedi'i gynllunio gan Lywodraeth y DU. Rydyn ni'n credu, yn geidwadol, y bydd hyn tua 140 o flynyddoedd ar ôl gorffen cynhyrchu trydan yn Safle'r Orsaf Bŵer, ond mae rhagor o waith manwl yn cael ei wneud i edrych ar ffyrdd o gwtogi ar yr amserlen hon.




Creu'r cyd-destun tirwedd ar gyfer ein Gorsaf Bŵer

Rydyn ni'n cydnabod y bydd maint adeiladau a seilwaith yr Orsaf Bŵer yn newid y dirwedd leol.

Rydyn ni'n cynnig creu cyd-destun gweledol ar gyfer yr Orsaf Bŵer sy'n cyd-fynd â'r dirwedd fryniog bresennol, sydd wedi cael ei dominyddu gan fryniau bach o'r enw drymlinoedd. Er mwyn ein helpu i wneud hyn, rydyn ni wedi creu Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol sy'n cynnwys ein cynigion ar gyfer creu'r cyd-destun tirwedd parhaol ar gyfer ein Gorsaf Bŵer a sut bydd hyn yn newid dros amser.

Mae'r Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol hefyd yn ystyried ein gwaith asesiad amgylcheddol rhagarweiniol ac yn ymgorffori cynigion sy'n edrych ar bynciau fel draenio, ecoleg, hamdden a defnydd amaethyddol, ac mae wedi'i integreiddio â datblygiad y gwaith cloddio yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae'r Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol yn rhoi mesurau lliniaru a gwella a fydd yn golygu bod modd adfer y dirwedd o amgylch yr Orsaf Bŵer.



Y PRIF YSTYRIAETHAU AR GYFER Y CYNIGION TIRWEDD A HAMDDEN

Mae nifer o lwybrau troed cyhoeddus, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru, yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Byddai angen dargyfeirio neu gau'r rhain am resymau diogelwch ac rydyn ni'n cydnabod y gallai hyn newid amwynderau hamdden yn yr ardal.

Rydyn ni hefyd yn cydnabod bod nifer o nodweddion arbennig a materion penodol mae angen i ni eu cynnwys wrth ddatblygu ein dyluniad ac rydyn ni wedi ystyried y canlynol yn benodol:

- ardaloedd sydd â dynodiad arbennig gan gynnwys: Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, Arfordir Treftadaeth Gogledd Ynys Môn, Ardal Tirwedd Arbennig Ynys Môn (sy'n cael eu dangos ar dudalen 16 y ddogfen hon)
- Trwyn Wylfa
- cyrsiau dŵr sy'n cael eu diogelu dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr
- ein cymdogion agosaf, yn enwedig y rheini yn Nhregele a Chemaes
- hawliau tramwy cyhoeddus a defnyddwyr
- nodweddion tirwedd a morwedd sy'n bodoli eisoes
- yr angen i ddargyfeirio Llwybr Arfordir Cymru i ffin y safle adeiladu
- Ffordd Cemlyn
- adeiladu'r ffordd fynediad newydd i'r Orsaf Bŵer yn gynnar yn y rhaglen er mwyn rhoi mynediad o'r A5025 drwy gylchfan newydd i'r de o Dregele

Ar ôl gorffen y gwaith adeiladu, bydd y ffens adeiladu ar hyd y ffin yn cael ei thynnu i lawr a bydd ffin yr Orsaf Bŵer yn cael ei chreu gan ffens ddiogelwch barhaol.

CREU CYD-DESTUN TIRWEDD

Rhan ganolog o'r dull rydyn ni'n ei gynnig ar gyfer tirwedd ydy creu twmpathau ar draws Ardal Datblygu Wylfa Newydd drwy ddefnyddio'r deunyddiau a fydd wedi cael eu cloddio yn ystod y gwaith adeiladu.

Bydd y twmpathau newydd rydyn ni'n bwriadu eu creu ar gam cynnar yn y gwaith adeiladu yn cael eu tirwedd â gwrychoedd, coed a llwyni sy'n nodweddiadol i Ynys Môn er mwyn creu nodweddion sy'n debyg o ran ffurf ac uchder i'r dirwedd sydd yno ar hyn o bryd. Rydyn ni hefyd yn edrych ar nifer o leoliadau lle bydden ni'n gobeithio gwella gwerth bioamrywiaeth leol yn benodol, gan adeiladu ar ein mentrau blaenorol fel gosod blychau ystumod a thŵr bywyd gwyllt.

Bydd y twmpathau'n cael eu creu i fod yn sgriniau gweledol ac yn sgriniau rhag sŵn ar gyfer pentrefi Tregele a Chemaes. Mae'r ardaloedd lle rydyn ni'n bwriadu codi'r twmpathau newydd i'r de, i'r dwyrain ac i'r gorllewin o Safle'r Orsaf Bŵer yn gyffredinol.

Byddai hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu symud er mwyn caniatáu mynediad i Ardal Datblygu Wylfa Newydd pan na fydd angen y tir mwyach ar gyfer gweithgareddau adeiladu. Byddwn hefyd yn ceisio dychwelyd rhai ardaloedd i'w defnyddio at ddibenion amaethyddol yn y tymor hirach.

Er mwyn gwella'r profiad i ddefnyddwyr hamdden, rydyn ni'n bwriadu adeiladu maes parcio newydd a gosod byrddau picnic, meinciau, byrddau gwybodaeth a lloches yn Nhrwyn Wylfa. Rydyn ni hefyd yn cynnig adeiladu canolfan ymwelwyr newydd a fyddai'n atyniad i dwristiaid ac yn cynnwys cyfleuster addysg.



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae ein cynnig tirwedd presennol yn seiliedig ar ailddefnyddio'r deunyddiau a fydd wedi cael eu cloddio cymaint ag y bo modd. Bydd hyn yn golygu y bydd llai o gerbydau o lawer yn gorfod teithio ar draws yr Ynys.

Creu'r cyd-destun tirwedd ar gyfer ein Gorsaf Bŵer

Mae'r Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol yn cynnwys pedwar prif gam, fel sy'n cael eu dangos yn y lluniau canlynol. Mae'r prif weithgareddau neu newidiadau gweledol gall trigolion lleol eu disgwyl yn cael eu nodi ar gyfer pob cam.

Er mwyn paratoi'r ardal ar gyfer y prif waith adeiladu mae angen i ni wneud nifer o weithgareddau allweddol ar y dechrau sy'n cynnwys:

- gwaith paratoi a chlirio'r safle (edrychwch ar y wybodaeth am Baratoi a Chlirio'r Safle ar dudalen 11)
- stripio'r uwchbridd (edrychwch ar y llun ar dudalen 12)
- gosod ein ffens ddiogelwch
- cau rhai hawliau tramwy cyhoeddus dros dro
- gwyro llwybrau troed a llwybrau beicio



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Ar hyn o bryd rydyn ni'n pwysu a mesur pa ffordd fydd llwybr terfynol Llwybr Arfordir Cymru yn mynd yn y pen draw, ond rydyn ni wedi dangos ein syniadau diweddaraf ar y ffigurau tirwedd.

ALLWEDD

Ardal Datblygu
Wylfa Newydd

Y gwaith arfaethedig

Ardaloedd o uwchbridd
wedi'i stripio

Twmpathau storio uwchbridd
dros dro

Clirio llystyfiant/ffiniau caeau a
phethau uwchben y tir

Ffens adeiladu dros dro

Hawliau tramwy cyhoeddus
sydd i'w cau dros dro

Gwriad y Trywydd Copr

Gwriad Llwybr Arfordir
Cymru (mae'r dewisiadau
wrthi'n cael eu hystyried)

Nodweddion presennol

Coetir sydd i'w gadw

Anheddau


Ffyrdd

Hawliau tramwy cyhoeddus

Y Trywydd Copr

Llwybr Arfordir Cymru



Parc a Gardd Hanesyddol
Cofrestredig



Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol: Y safle yn barod ar gyfer y prif waith adeiladu

Ar ôl i ni ddechrau'r prif weithgareddau adeiladu, gallwch chi ddisgwyl gweld:

- llwyfannau adeiladu'n cael eu creu ar gyfer yr adweithyddion niwclear
- adeiladau dros dro ar gyfer y gwaith adeiladu
- adeiladu ffordd fynediad yr Orsaf Bŵer
- Cau Ffordd Cemlyn
- Llety i weithwyr ar y safle





Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol: Y prif weithgareddau adeiladu

Creu'r cyd-destun tirwedd ar gyfer ein Gorsaf Bŵer


Drwy gydol y prif gyfnod adeiladu bydd amrywiaeth o weithgareddau'n mynd ymlaen gan gynnwys:

- Y Cyfleuster Dadlwytho Morol yn derbyn nwyddau a fydd yn cael eu danfon yn rheolaidd
- offer gwneud concrit ar waith
- tirweddu parhaol wedi'i gwblhau, twmpathau dros dro wedi'u hychwanegu yn ôl yr angen
- defnyddio'r Llety Gweithwyr Dros Dro ar y safle
- gorffen y twmpathau tirweddu
- parhau i adeiladu adeiladau'r Orsaf Bŵer

Wrth i ni symud at gam gweithredu'r Orsaf Bŵer byddwn ni'n tynnu'r ffens adeiladu ar hyd y ffin ac yn adfer mynediad y cyhoedd i'r llwybrau troed a gafodd eu cau yn ystod y cam adeiladu.



Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol: Cwblhau'r prif waith cloddio



Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol: Creu cyd-destun tirwedd parhaol



CWESTIWN – CYNLLUN MEISTR TIRWEDD AC AMGYLCHEDDOL

Bydd manylion cynigion ein Prosiect yn cael eu datblygu yng nghyd-destun ein Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol a bydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu tirwedd derfynol a mesurau lliniaru amgylcheddol y Prosiect. Rydyn ni'n croesawu eich syniadau ynghylch hyn, yn enwedig yn y meysydd canlynol:

- y gwaith plannu, gan gynnwys y mathau o goed neu batrymau'r gwrychoedd sy'n cael eu ffafrio
- y ffordd mae'r rhwydwaith llwybrau troed yn plethu â'i gilydd, gan gynnwys a fydd llwybrau'n mynd dros neu o amgylch y twmpathau sy'n cael eu cynnig
- graddiant y twmpathau, sy'n golygu y gallai'r ôl troed fod yn llai ond byddai'r bryn yn fwy serth, neu gallai'r ôl troed fod yn fwy ond byddai'r bryn yn llai serth. Gallai defnyddio siapiau gwahanol ar gyfer y twmpathau fod yn addas at ddibenion gwahanol fel ffermio neu hamdden
- a ddylid cynnwys llwybrau beicio ac os felly, pa lefydd dylen nhw fod yn ceisio eu cysylltu â'i gilydd

Rhowch eich safbwyntiau a'ch awgrymiadau ynghylch yr agweddau o'r dyluniad Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol sy'n bwysig i chi.

ALLWEDD

Ardal Datblygu Wylfa Newydd

Y gwaith arfaethedig

Ardaloedd o uwchbridd wedi'i stripio

Ffordd fynediad arfaethedig yr Orsaf Bŵer

Ardaloedd gosod/ardaloedd adeiladu eraill

Ardal adeiladu gyffredinol

Twmpathau tirwedd arfaethedig

Twmpathau dros dro sydd i'w hadu â glaswellt

Hawliau tramwy cyhoeddus sydd i'w cau dros dro

Gwyrriad y Trywydd Copr

Gwyrriad Llwybr Arfordir Cymru (mae'r dewisiadau wrthi'n cael eu hystyried)

Nodweddion presennol

Coetir sydd i'w gadw

Anheddau

Ffyrdd

Hawliau tramwy cyhoeddus


Y Trywydd Copr

Llwybr Arfordir y Gorllewin

Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig

Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer

Fel rhan o'n trefniadau cynllunio ar gyfer argyfwng, mae nifer o adeiladau y byddai angen iddyn nhw fod ar wahân i Safle'r Orsaf Bŵer yn ddaearyddol ond ddim yn rhy bell i ffwrdd. Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear sy'n llunio'r gofynion ar gyfer yr adeiladau hyn. Ers cam cyntaf ein hymgyngoriad cyn ymgeisio ffurfiol, rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r rheoleiddwyr ac rydyn ni wedi datblygu ein dealltwriaeth o'n hanghenion ar gyfer gofynion y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer.




CANOLFAN RHEOLI ARGYFWNG AMGEN A LABORDY AROLYGON AMGYLCHEDDOL

Yn debyg i'r cyfleuster yng ngorsaf bŵer bresennol Magnox, byddai angen i'r Prosiect gael Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen a Labordy Arolygon Amgylcheddol. Petai digwyddiad eithriadol o annhebygol yn digwydd ac nad oedd y cyfleusterau yn Safle'r Orsaf Bŵer ar gael mewn argyfwng, byddai'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen yn darparu cyfleusterau rheoli a chyfathrebu eraill. Byddai hyn yn golygu bod modd i unrhyw reolwyr argyfwng gysylltu â'r Awdurdod Lleol a'r Gwasanaethau Brys yn y Ganolfan Cydlyn Strategol.

Byddai'r Labordy Arolygon Amgylcheddol yn cynnwys cyfleusterau i fonitro ar gyfer unrhyw lefelau posib o ymbelydredd yn yr ardal leol, yn ystod gweithredu arferol ac mewn sefyllfaoedd argyfwng. Byddai nifer bach o gerbydau yn y cyfleuster hwn, gyda chysylltiadau cyfathrebu i Safle'r Orsaf Bŵer.

Er ei bod hi'n bosibl i adeiladau'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen a'r Labordy Arolygon Amgylcheddol fod ar wahân ar safleoedd gwahanol, byddai'n well gennym ni roi'r cyfleusterau hyn gyda'i gilydd wrth ystyried eu gofynion gweithredol a'u perthynas yn ystod argyfwng.

CANOLFAN RHEOLI ARGYFWNG AMGEN A LABORDY AROLYGON AMGYLCHEDDOL




Cynlluniau dangosol yn unig. Bydd y cynlluniau sy'n cael eu ffafrio yn cael eu datblygu o fewn ffin y safle gan ystyried y cyfyngiadau amgylcheddol a chyfyngiadau eraill y safle

Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer

GAREJ OFFER ARGYFWNG SYMUDOL

Mae'r Garej Offer Argyfwng Symudol yn gyfleuster ar gyfer storio cerbydau arbenigol. Bydd ar wahân i Safle'r Orsaf Bŵer ond yn agos iddo. Byddai hyn yn golygu bod modd i'r cerbydau arbenigol gyrraedd yn gyflym i gefnogi digwyddiad argyfwng annhebygol yn Safle'r Orsaf Bŵer. Byddai modd defnyddio'r Garej Offer Argyfwng Symudol hefyd fel pwynt stiwardio ar gyfer y gefnogaeth a fyddai'n cyrraedd ar Ynys Môn cyn symud ymlaen i Safle'r Orsaf Bŵer.




Cynlluniau dangosol yn unig. Bydd y cynlluniau sy'n cael eu ffafrio yn cael eu datblygu o fewn ffin y safle gan ystyried y cyfyngiadau amgylcheddol a chyfyngiadau eraill y safle

Datblygiadau Cysylltiedig


Ers cam cyntaf yr ymgynghoriad cyn ymgeisio ffurfiol, rydyn ni wedi gwneud llawer iawn o waith i ddod o hyd i safleoedd priodol ar gyfer ein Datblygiadau Cysylltiedig sy'n cynnwys o leiaf un cyfleuster parcio a theithio, canolfan logisteg ac o leiaf dri lleoliad

ar gyfer llety gweithwyr dros dro oddi ar y safle. Rydyn ni hefyd wedi cynnal astudiaethau i ddod o hyd i safleoedd ar gyfer canolfan ymwelwyr a chanolfan derbyn y cyfryngau, yn ogystal â'r storfeydd oddi ar y safle.



Datblygiadau Cysylltiedig

CYFLEUSTER PARCIO A THEITHIO



Cynlluniau dangosol yn unig. Bydd y cynlluniau sy'n cael eu ffafrio yn cael eu datblygu o fewn ffin y safle gan ystyried y cyfyngiadau amgylcheddol a chyfyngiadau eraill y safle

CANOLFAN LOGISTEG



Cynlluniau dangosol yn unig. Bydd y cynlluniau sy'n cael eu ffafrio yn cael eu datblygu o fewn ffin y safle gan ystyried y cyfyngiadau amgylcheddol a chyfyngiadau eraill y safle



OEDDECH CHI'N GWYBOD

Roedden ni wedi ystyried y canlynol wrth ddod o hyd i leoliad addas ar gyfer y ganolfan ymwelwyr a'r ganolfan i dderbyn y cyfryngau (Mae rhagor o wybodaeth ar y dudalen nesaf)

Canolfan ymwelwyr

- darparu atyniad i dwristiaid a ffocws ar hanes a diwylliant yr ardal leol
- diogelwch ymwelwyr yn ystod y cam adeiladu a'r cam gweithredu
- pryd fyddai'r safle ar gael
- mynediad ar droed, ar feic, mewn trafndiaeth gyhoeddus ac mewn car
- y gallu i weld yr Orsaf Bŵer
- cyfyngiadau lleol a pheirianneg

Canolfan i dderbyn y cyfryngau

- y gallu i weld yr Orsaf Bŵer
- pellter diogel i ffwrdd oddi wrth Safle'r Orsaf Bŵer
- cyfleusterau parcio a lles
- llefydd ar gyfer briffio'r wasg

Er y gallai'r ganolfan ymwelwyr a'r ganolfan i dderbyn y cyfryngau fod yn ddau adeilad, oherwydd y gofynion tebyg o ran lleoliad a swyddogaethau, byddai'n well gennym ni i'r cyfleusterau hyn fod gyda'i gilydd.

Datblygiadau Cysylltiedig

CANOLFAN YMWELWYR A CHANOLFAN I DDERBYN Y CYFRYNGAU

Byddai'r ganolfan ymwelwyr arfaethedig yn cyflawni dwy brif swyddogaeth:

- darparu cyfleusterau addysg ac atyniad i dwristiaid sy'n canolbwyntio ar hanes yr ardal leol a chynhyrchu trydan, gan adeiladu ar y cysylltiadau sydd eisoes wedi'u sefydlu gan ganolfan ymwelwyr gorsaf bŵer bresennol Magnox, a
- chyfleuster lle gallai'r cyfryngau ddod ynghyd i gael eu briffio petai argyfwng annhebygol iawn yn digwydd yn Safle'r Orsaf Bŵer

Fel yr amlinellwyd yng ngham cyntaf yr ymgynghoriad cyn ymgeisio, roedden ni wedi cynnig lleoliad ar gyfer y ganolfan ymwelwyr yn Adeiladau Porth Wylfa. Ar ôl ymgynghori â Chyngor Sir Ynys Môn a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, rydyn ni hefyd wedi ystyried y canlynol

- lleoliad yn agos at gylchfan mynediad newydd yr Orsaf Bŵer oddi ar yr A5025
- lleoliad oddi ar ffordd fynediad gorsaf bŵer bresennol Magnox
- Drwyn Wylfa



Cynlluniau dangosol yn unig. Bydd y cynlluniau sy'n cael eu ffafrio yn cael eu datblygu o fewn ffin y safle gan ystyried y cyfyngiadau amgylcheddol a chyfyngiadau eraill y safle

STORFEYDD ODDI AR Y SAFLE

Ers cam cyntaf ein hymgyngoriad cyn ymgeisio, rydyn ni wedi gweld bod angen storfeydd oddi ar y safle er mwyn helpu i weithredu a chynnal a chadw'r Orsaf Bŵer. Mae'r materion mae angen i ni eu hystyried o ran dod o hyd i leoliad yn debyg iawn i'r rheini a gynigir ar gyfer y ganolfan logisteg ond yn ystod y cam gweithredu, yn enwedig y gofynion o ran lleoliad, cynllun ac adeiladau ffisegol. Byddai'n rhaid cael safle wrth ymyl yr A55 ar Ynys Môn a gorau oll os byddai'r safle wrth ymyl Caergybi lle byddai modd danfon nwyddau drwy'r porthladd.

Y lleoliad sydd orau gennym ni ydy Parc Cybi gan y byddai'n rhoi cyfle am fudd i'r dyfodol ar ôl defnyddio'r ganolfan logisteg. Ein camau nesaf fydd penderfynu a oes modd rheoli'r newid o'i ddefnyddio fel adeilad canolfan logisteg i fod yn storfeydd oddi ar y safle (ar gyfer y cam gweithredu) heb amharu ar swyddogaethau'r ganolfan logisteg. Os na fydd modd rheoli hyn, Parc Cybi fyddai'r safle a fyddai'n dal i gael ei ffafrio ond byddai'r storfeydd oddi ar y safle'n cael eu hadeiladu wrth ymyl y ganolfan logisteg.



CWESTIWN – CYFLEUSTERAU ODDI AR SAFLE'R ORSAF BŴER A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG

Rydyn ni wedi amlinellu'r meini prawf canfod lleoliad sy'n ymwneud â'r safleoedd rydyn ni'n eu ffafrio ar gyfer ein Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'r Datblygiadau Cysylltiedig.

Gan feddwl am y gofynion hyn i ddewis safle, rhowch eich barn ynghylch y safleoedd rydyn ni'n eu ffafrio. Bydd eich adborth chi, yn gadarnhaol ac yn negyddol, i'r safleoedd rydyn ni wedi'u nodi, ynghyd â'ch rhesymau dros hyn, yn ddefnyddiol iawn er mwyn arwain ein dealltwriaeth o sut gallai defnyddio'r safleoedd hyn effeithio ar eich cymuned chi.



Cynlluniau dangosol yn unig. Bydd y cynlluniau sy'n cael eu ffafrio yn cael eu datblygu o fewn ffin y safle gan ystyried y cyfyngiadau amgylcheddol a chyfyngiadau eraill y safle

Llety Gweithwyr

Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n galed i ddeall anghenion ein gweithlu adeiladu ac rydyn ni wedi paratoi Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu, sy'n canolbwyntio ar ddarparu tai i weithwyr a fydd yn gweithio ar Brosiect Wylfa Newydd i ffwrdd oddi wrth eu cartref. Rydyn ni hefyd wedi paratoi Taflen Ffeithiau ynghylch y Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol am ein dull gweithredu.

Mae'r Strategaeth hon yn gyfle i ni ddod o hyd i gyfleoedd i landlordiaid a pherchnogion cartrefi ddarparu llety i aelodau o'r gweithlu adeiladu os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny, heb lethu'r unedau llety rhent a thwristiaeth sydd ar gael.

Rydyn ni'n disgwyl y bydd y gweithlu adeiladu ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd rhwng 8,000 a 10,000 ar yr adegau prysuraf, a bydd dros 6,000 am oddeutu tair i bedair blynedd o gyfanswm y cyfnod adeiladu. Er mwyn cynllunio Prosiect Wylfa Newydd ac ar gyfer ein hasesiad amgylcheddol, rydyn ni wedi gwneud ein cyfrifiadau ar sail uchafswm gweithlu adeiladu o 9,200.



RHAGOR O WYBODAETH

Rydyn ni wedi diffinio'r ardal 'teithio i'r gwaith' fel yr ardal bellaf y byddai'n rhesymol i weithwyr fod yn fodlon teithio yn ôl ac ymlaen i'w gwaith ohoni bob dydd. Fel rheol mae hyn yn cael ei ystyried fel gyrru 90 munud i'n Prosiect.



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Rydyn ni'n meddwl y byddai tua 2,300 o bobl (25%) yn teithio i'r gwaith o'u cartref, ar Ynys Môn neu yn yr ardal teithio i'r gwaith, er mwyn bod yn rhan o'r gweithlu adeiladu. Rydyn ni'n tybio na fydd yn rhaid i ni drefnu llety ar gyfer y gweithwyr hyn. Rydyn ni wedi dylunio ein Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu er mwyn darparu llety ar gyfer y 6,900 o weithwyr adeiladu eraill, gan ffafrio darparu llety iddyn nhw'n agos at Safle'r Orsaf Bŵer.

Mae Horizon yn cydnabod bod cymunedau lleol yn poeni'n arw oherwydd nifer y gweithwyr adeiladu a fydd yn cyrraedd ar gyfer cam adeiladu Prosiect Wylfa Newydd. Mae hi'n bwysig ein bod ni'n creu ateb i letya ein gweithwyr a fydd yn lleihau'r effeithiau (yn gadarnhaol ac yn negyddol) a gaiff hyn ar gymunedau lleol, ar y Gymraeg a'i diwylliant, effeithiau ar iechyd a chydlyniant cymdeithasol.




Yr ardal teithio i'r gwaith

FFYRDD O DDARPARU LLETY I WEITHWYR

Rydyn ni wedi adolygu'r gwahanol fathau o lety sydd ar gael ar hyn o bryd y byddai modd i'n gweithwyr dros dro eu defnyddio. Mae'r rhain yn perthyn i bedwar prif gategori:

- **Byw mewn llety twristiaid sydd eisoes ar gael:** Rydyn ni'n cydnabod bod gan Ynys Môn stoc fawr o lety i dwristiaid sy'n cynnwys parciau carafanau, llety gwely a brecwast, gwestai a llety hunanarlwyo tymor byr, ac mae'r graddau mae'r rhain yn cael eu defnyddio yn amrywio yn ôl y tymor. Rydyn ni'n disgwyl y bydd tua 820 o welyau yn y stoc bresennol o lety i dwristiaid ar gael i'w defnyddio gan weithwyr adeiladu yn ystod y cyfnod adeiladu prysuraf, sef rhwng 2021 a 2024, heb greu effeithiau negyddol ar dwristiaeth ar draws yr Ynys.
- **Byw mewn llety rhent preifat:** Mae llety rhent preifat yn cael ei gynnwys fel rhan o stoc dai bresennol Ynys Môn ac rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod llety sy'n wag ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio
- **Prynu eiddo sydd eisoes yn bodoli:** rydyn ni'n disgwyl y byddai cyfran o'n gweithwyr (tua 670) yn prynu eu heiddo eu hunain o fewn pellter teithio i Safle'r Orsaf Bŵer
- **Aildddefnyddio tai gwag:** gan gydweithio â Chyngor Sir Ynys Môn, rydyn ni wedi dod o hyd i fudd posibl newid eiddo gwag yn eiddo y byddai modd eu defnyddio unwaith eto. Serch hynny, bydd angen bod yn ofalus nad ydyn ni'n llethu cymunedau bach lle mae llawer o siaradwyr Cymraeg. Rydyn ni'n meddwl y byddai modd darparu llety i o leiaf 250 o weithwyr drwy aildddefnyddio eiddo sydd eisoes ar gael o fewn 30 munud yn y car i Safle'r Orsaf Bŵer



Dosbarthiad tebygol y gweithlu adeiladu ar draws y gwahanol fathau o lety



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn defnyddio ein stoc dai arbennig, byddwn ni'n creu Porth Rheoli Llety Gweithwyr Adeiladu y bydd yn rhaid iddyn nhw ei ddefnyddio i sicrhau eu llety wrth weithio

ar y Prosiect. Bydd hyn hefyd yn ffordd effeithlon i drigolion roi gwybod os oes ganddyn nhw unrhyw lety ar gael. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein Taflen Ffeithiau am ein Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu sydd ar gael ar

ffurf copi caled yn ein digwyddiadau ac ar ein gwefan yn: www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad.

Llety Gweithwyr

MATHAU O LETY NEWYDD

Mae hyn yn golygu bydd ychydig o dan 4,000 o weithwyr ar ôl na fydd lle iddyn nhw mewn mathau o lety sydd ar gael yn barod ac, o'r herwydd, bydd angen stoc newydd. Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o Lety Gweithwyr Dros Dro a fydd wedi cael ei ddarparu'n arbennig. Roedden ni wedi cyflwyno hyn yng nghymuned cyntaf ein hymgyngoriad cyn ymgeisio ond rydyn ni wedi datblygu ein syniadau ymhellach.

- **Tai newydd:** Rydyn ni'n gwybod bod angen tai newydd ar Ynys Môn. Rydyn ni'n credu bod cyfle i adeiladu tai newydd ac i rai o'n gweithwyr eu defnyddio i ddechrau, gan adael rhywbeth cadarnhaol ar ôl i'r dyfodol ar ôl i'r gwaith adeiladu orffen
- **Llety Gweithwyr Dros Dro:** Mae'r term hwn yn disgrifio datblygiad ar ffurf campws a fydd yn cynnwys o leiaf 500 o unedau modiwlaid ag ystafell wely sengl, gan rannu cyfleusterau fel ceginau a chyfleusterau bwyta. Byddai rhwng 250 a 500 o unedau'n cael eu darparu yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar gyfer gweithwyr adeiladu hollbwysig. Yn y safleoedd eraill lle byddwn ni'n darparu llety gweithwyr dros dro, bydd cyfleusterau arlwy, gofal iechyd, golchi dillad a rhai cyfleusterau hamdden yn cael eu darparu a byddwn ni'n cludo'r gweithwyr yn ôl ac ymlaen o'r safleoedd hyn i Safle'r Orsaf Bŵer ar fysiau gwennol. Bydd hyn yn helpu i leihau'r effaith ar drafnidiaeth a gwasanaethau lleol

Rydyn ni wedi dod o hyd i safleoedd tebygol ar gyfer llety gweithwyr adeiladu a thai newydd a'r llwybrau tebygol a fyddai'n cael eu defnyddio gan ein bysiau gwennol er mwyn cludo gweithwyr yn ôl ac ymlaen o'r lleoliadau hyn (edrychwch ar y wybodaeth ar dudalen 38).



CWESTIWN – CYFLEUSTERAU AR GYFER Y GWEITHWYR ADEILADU

Bydd y gweithwyr adeiladu nad ydyn nhw eisoes yn byw ar Ynys Môn na'r cymunedau cyfagos ar y tir mawr yn cael dewis lle i fyw. Mae'n debyg y bydd rhywfaint o lety mewn pentrefi a threfi, er enghraifft dewisiadau rhentu sydd ar gael ar hyn o bryd neu ailddefnyddio tai sydd wedi bod yn wag. Byddai gweddill ein gweithwyr adeiladu yn byw mewn Llety Gweithwyr Dros Dro a fydd yn cael ei ddarparu'n arbennig.

Ble bynnag byddan nhw'n dewis byw, bydd angen i'n gweithwyr adeiladu allu defnyddio amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau ac rydyn ni'n cydnabod y gallai cyflwyno'r gweithwyr hyn gynyddu'r galw am wasanaethau a chyfleusterau lleol. Mewn rhai achosion gallai hyn arwain at bwysau ychwanegol ar gymunedau lleol, er enghraifft, drwy gynyddu'r amser mae'n rhaid aros am apwyntiad meddyg teulu ond mewn achosion eraill gallai gyflwyno defnyddwyr newydd i gyfleusterau nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio ddigon fel canolfannau hamdden.

Mae sawl ffordd bosibl o ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer ein gweithwyr adeiladu ac rydyn ni'n cydnabod bod manteision a sialensiau ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau o'r fath.

Mewn perthynas â'r awgrymiadau ar gyfer cyfleusterau a gwasanaethau, defnyddiwch y ffurflen adborth i roi gwybod i ni pa ddewisiadau fydddech chi eisiau i ni eu rhoi ar waith a pham.



RHAGOR O WYBODAETH

Rydyn ni wedi canfod y gallai fod lle ar gael i tua 200 o weithwyr yn ystod y cam adeiladu cychwynnol mewn cartrefi preifat neu drwy rentu, gan godi drwy 2020 i tua 1,000 o bosibl erbyn canol 2021. Efallai y bydd llefydd ychwanegol ar gael yn y dyfodol wrth i berchnogion gynnig ystafelloedd gwag yn eu cartrefi – 'llety cudd' ydy'r enw ar hyn.



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Byddai'r gweithwyr adeiladu hollbwysig yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud â diogelwch eiddo, tywallt concrit yn gyson ac adeiladu'r system dŵr oeri.

LLEOLIAD LLETY GWEITHWYR ADEILADU

Rydyn ni wedi dod o hyd i nifer o safleoedd lle byddai modd i ni ddatblygu tai newydd a Llety Gweithwyr Dros Dro.

ARDAL DATBLYGU WYLFA NEWYDD

Rydyn ni'n cynnig y byddai rhwng 250 a 500 o weithwyr adeiladu hollbwysig yn cael llety yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Byddem yn cael gwared ar y llety dros dro hwn ar ôl iddo gael ei ddefnyddio.



Cynlluniau dangosol yn unig. Bydd y cynlluniau sy'n cael eu ffafrio yn cael eu datblygu o fewn ffin y safle gan ystyried y cyfyngiadau amgylcheddol a chyfyngiadau eraill y safle

Llety Gweithwyr

RHOSGOCH

Byddai modd darparu llety i hyd at 4,000 o weithwyr yn yr hen safle olew yn Rhosgoch. Byddem yn cael gwared ar y llety dros dro hwn ar ôl iddo gael ei ddefnyddio a byddai'r safle'n cael ei ddychwelyd i'w ddefnyddio gan y gymuned gyda gwasanaethau mewn lle, a fyddai'n golygu ei bod hi'n bosibl ailddatblygu'r safle yn y dyfodol




Cynlluniau dangosol yn unig. Bydd y cynlluniau sy'n cael eu ffafrio yn cael eu datblygu o fewn ffin y safle gan ystyried y cyfyngiadau amgylcheddol a chyfyngiadau eraill y safle

KINGSLAND A CHAE GLAS, CAERGYBI

Byddai modd darparu llety i hyd at 4,000 o weithwyr yn y datblygiad "Land & Lakes" arfaethedig yn Kingsland a Chae Glas, Caergybi, sydd wedi cael caniatâd cynllunio yn barod yn amodol ar gytundeb ar delerau a106. Ar ôl ei ddefnyddio ar gyfer ein gweithwyr adeiladu, byddai modd addasu'r llety hwn i fod yn

llety gwyliau ac yn dai parhaol. Byddai'r ardal hon yn cael ei datblygu gan ddatblygwr trydydd parti, a byddai modd newid y cynllun drwy ymgynghori â Chyngor Sir Ynys Môn. O'r herwydd, dim ond yr ardal fwyaf o dir sy'n cael ei dangos yma.




Cynlluniau dangosol yn unig. Bydd y cynlluniau sy'n cael eu ffafrio yn cael eu datblygu o fewn ffin y safle gan ystyried y cyfyngiadau amgylcheddol a chyfyngiadau eraill y safle

Llety Gweithwyr

FFERM MADYN, AMLWCH

Rydyn ni'n cynnig adeiladu tua 50 o dai parhaol ar safle o'r enw Fferm Madyn yn Amlwch. Byddai'r tai hyn yn rhoi llety i tua 150-200 o weithwyr adeiladu dros dro am tua phedair blynedd cyn dychwelyd i'r stoc dai gyffredinol. Ar ben hynny, byddai modd darparu llety dros dro i hyd at 800 o weithwyr ar dir wrth ymyl Fferm Madyn ac ar ochr arall y B5111. Byddem yn cael gwared ar y llety dros dro hwn ar ôl iddo gael ei ddefnyddio a byddai'r safle'n cael ei ddychwelyd i'w ddefnyddio gan y gymuned gyda gwasanaethau mewn lle, a fyddai'n golygu ei bod hi'n bosibl ailddatblygu'r safle yn y dyfodol



Cynlluniau dangosol yn unig. Bydd y cynlluniau sy'n cael eu ffafrio yn cael eu datblygu o fewn ffin y safle gan ystyried y cyfyngiadau amgylcheddol a chyfyngiadau eraill y safle

TAI PARHAOL YNG NGHAEGRYBI

Rydyn ni hefyd yn ystyried cyfleoedd i ddatblygu tai parhaol yng Nghaergybi, er nad ydyn ni wedi dod o hyd i safleoedd penodol ar hyn o bryd. Byddai'r tai hyn yn gallu rhoi llety i weithwyr adeiladu dros dro am tua phedair blynedd cyn dychwelyd i'r stoc dai gyffredinol.

**RHAGOR O WYBODAETH**

Yn y digwyddiadau gwybodaeth roedden ni wedi'u cynnal ym mis Gorffennaf 2015 roedden ni wedi ystyried adeiladu Llety Gweithwyr Dros Dro yn Dalar Hir, gyda'r cyfleuster Parcio a Theithio, serch hynny, nid ydym ni'n ei ystyried ar hyn o bryd.

Wrth i ni fireinio ein cynigion efallai byddwn ni'n ailedrych ar ddefnyddio Dalar Hir ar gyfer llety i weithwyr ac, os byddwn ni'n gwneud hyn, byddwn yn dod yn ôl atoch chi ac yn rhannu unrhyw gynigion diwygiedig.

Bydd yr ateb terfynol ar gyfer llety ein gweithwyr adeiladu yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys yr effaith bosibl ar y Gymraeg mewn cymunedau. Ond rydyn ni wedi dod o hyd i atebion rydyn ni'n meddwl a allai leihau'r effeithiau ar gymunedau ar yr un pryd â bod o fantais i iechyd a lles ein gweithwyr.

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n dangos yr uchafswm neu'r ystod debygol o unedau y byddai modd eu dyrannu i bob lleoliad, ond bydd ein cynigion terfynol yn gymysgedd o ddewisiadau. Byddwn ni'n ymgynghori ynghylch ein cynigion terfynol yn ystod ail gam ein hymgyngoriad cyn ymgeisio.

DADANSODDIAD POSIBL AR GYFER DARPARU LLETY I WEITHWYR ADEILADU

Math	Lleoliad	Unedau Llety
Ailddefnyddio tai gwag	Blaenoriaethu o fewn amser teithio 30 munud	250
Tai parhaol newydd	Amlwch	150 i 200 (tua 50 o gartrefi i'r dyfodol yn Fferm Madyn)
	Caergybi	manteision posibl i'r dyfodol o ddatblygiad Kingsland
Llety Gweithwyr Dros Dro	Ardal Datblygu Wylfa Newydd	rhwng 250 a 500
	Ardal Amlwch	hyd at 4,000 yn Rhosgoch
	Ardal Caergybi	hyd at 4,000 yn Kingsland a Chae Glas

**CWESTIWN - DEWISIADAU SAFLEOEDD LLETY GWEITHWYR DROS DRO**

Mae ein Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu yn cydnabod y bydd angen i'n gweithwyr ddefnyddio amrywiaeth o wahanol fathau o lety. Mae hyn yn cynnwys llety sydd eisoes ar gael ar gyfer ei rentu yn y tymor byr neu'r tymor hir (fel gwelyau rhent preifat neu ar gyfer twristiaid), y dewis i brynu cartref, yn ogystal â defnyddio llety newydd i'w rentu drwy ailddefnyddio cartrefi gwag. Byddai gweddill ein gweithwyr adeiladu yn byw mewn Llety Gweithwyr Dros Dro a fydd yn cael ei ddarparu'n arbennig.

Mae'n debyg y bydd o leiaf un o'r safleoedd mwy (Rhosgoch neu Kingsland/Cae Glas) yn cael ei ddefnyddio i ddarparu llety ar gyfer nifer mawr o weithwyr adeiladu, ac efallai byddwn yn defnyddio rhai o'r safleoedd eraill rydyn ni'n eu ffafrio neu'r cwbl. Byddwn ni'n cyflwyno ein cynigion terfynol ar gyfer darparu llety i'n gweithlu adeiladu yn ail gam ein hymgyngoriad cyn ymgeisio.

Rydyn ni wedi amlinellu ein cynigion i ddatblygu cyfleusterau ar gyfer tai newydd a Llety Gweithwyr Dros Dro ac rydyn ni eisiau eich barn er mwyn i ni allu mynd ymlaen i ddatblygu'r cyfleusterau sy'n cael eu cynnig ar y safleoedd hyn. Yn benodol, rydyn ni eisiau deall rhagor am yr effeithiau penodol y gallai ein datblygiadau eu cael yn lleol a/neu'r cyfleoedd a allai godi o ganlyniad i ddatblygu'r safleoedd hyn.

Gan feddwl am y wybodaeth sydd yn y ddogfen hon a'r Taflenni Ffeithiau ynghylch ein Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu a'n Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig, beth ydych chi'n ei feddwl ydy'r prif effeithiau a/neu gyfleoedd sy'n gysylltiedig â'n cynigion ynghylch cyfleusterau ar gyfer tai newydd a Llety Gweithwyr Dros Dro, gan gyfeirio at safleoedd penodol?

Ar ben hynny, oes gennych chi farn ynghylch y safleoedd penodol rydyn ni wedi'u nodi i'w defnyddio ar gyfer llety, yn enwedig yn y safleoedd mwy fel Rhosgoch neu Gae Glas/Kingsland?

Llety Gweithwyr

SHIFTTIAU GWEITHWYR ADEILADU

Rydyn ni'n dal i weithio ar lunio ein rhaglen adeiladu sy'n cynnwys meddwl am oriau gwaith a phatrymau shifft. Bydd angen i ni ddefnyddio dulliau gwahanol ar adegau gwahanol o'r gwaith adeiladu ond bydd angen i ni gyflwyno gweithio 24 awr ar adegau penodol.


Gweithgarwch	Oriau gwaith a phatrymau shifft dangosol
Gwaith adeiladu morol	Bydd y gwaith carthu yn digwydd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Yn gyffredinol byddai'r gweithgareddau eraill yn cael eu gwneud yn ystod oriau dydd, ac eithrio gweithgareddau arbennig o gymhleth a allai olygu gorfod gweithio 24 awr o bryd i'w gilydd.
Gwaith cloddio mawr, gan gynnwys graddio a chloddio dwfn	Yn gyffredinol hyd at 12 awr y dydd (yn ystod oriau dydd gan fwyaf), 7 diwrnod yr wythnos.
Gwaith adeiladu cyffredinol	Bydd gweithgareddau llwybr hollbwysig yn golygu gweithio 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos. Yn gyffredinol bydd y gwaith tywallt concrit yn digwydd yn ystod y shifftiau dydd, ac eithrio tywallt concrit mawr yn gyson a fydd yn golygu gweithio 24 awr.
Commissioning	Bydd y gwaith comisiynu yn cael ei wneud 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Ar gyfer cyfnodau o weithio 24 awr (mae disgwyl i hyn gyd-daro â'r adeg pan fydd nifer y gweithlu ar ei uchaf), rydyn ni'n disgwyl y bydd y patrwm shifftiau craidd mwyaf tebygol yn cynnwys dwy shifft, pob un yn para 10.5 awr (gan gynnwys hanner awr i ginio). Ein cynnig ar hyn o bryd ydy defnyddio patrwm shifftiau gyda'r nodweddion canlynol:

- shifft dydd gydag amseroedd dechrau gwahanol sef 0700, 0730 a 0800
- shifft nos gydag amseroedd dechrau gwahanol sef 1630, 1700 a 1730
- Un deg un diwrnod o waith a thri diwrnod i ffwrdd mewn cylch o un deg pedwar diwrnod a fyddai'n newid er mwyn gwneud yn siŵr y byddai'r gwaith yn parhau bob penwythnos

Mae hi'n bwysig nodi ei bod hi'n debyg y byddai'r shifft nos yn dod i ben rhwng 0300 a 0400 a byddai angen i'r gweithwyr shifft nos deithio yn ôl i'w llety. Byddai hynny'n golygu ei bod yn debyg y byddai'r bysiau gwennol yn teithio ar hyd y llwybrau sydd wedi cael eu nodi rhwng 0230 a 0430.





Llwybrau tebygol bysiau gwennol yn ôl ac ymlaen i Safle'r Orsaf Bŵer



CWESTIWN - SHIFFTIAU GWEITHWYR ADEILADU

Rydyn ni wedi datblygu cynnig ar gyfer patrymau shifft gweithwyr adeiladu. Serch hynny, ar sail yr ateb terfynol ar gyfer darparu llety i'n gweithwyr adeiladu, gallai ein patrymau shifft arwain at effeithiau gwahanol ar gymunedau lleol.

Er enghraifft, os bydden ni'n rhoi 4,000 o weithwyr adeiladu yn safle Rhosgoch, byddai angen i ni drefnu bod y bysiau gwennol yn teithio ar hyd y rhan honno o'r A5025 ar adegau fel 0230, 0800 a 1500.

Er nad ydy hi'n bosibl newid llawer ar y llwybrau bysiau na'r adegau teithio oherwydd y rhwydwaith ffyrdd a gofynion adeiladu prosiect mawr, rydyn ni'n cydnabod y gallai'r bysiau gwennol fod yn pasio lleoliadau sensitif fel eiddo preswyl a chyffyrdd ar adegau prysur ac felly'n creu effeithiau andwyol ar gymunedau lleol.

Byddwn ni'n gweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i leihau'r effeithiau hyn. Er enghraifft, byddwn ni'n gallu ystyried defnyddio bysiau mwy i gludo rhagor o weithwyr ar bob taith er mwyn lleihau faint o fysiau fyddai'n teithio ar ffyrdd lleol. Rydyn ni eisiau clywed eich barn am ffactorau ac ystyriaethau eraill sy'n bwysig i chi rydyn ni o bosibl heb eu hystyried.

Diwallu gofynion trafnidiaeth y Prosiect

STRATEGAETH TRAFFIG A THRAFNIDIAETH INTEGREDIG

Rydyn ni nawr wedi paratoi Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig er mwyn cyflwyno pecyn cydlynol o fesurau i gludo ein gweithwyr a'n deunyddiau adeiladau ac er mwyn chwilio am gyfleoedd i'r dyfodol ar ôl y cam gweithredu. Mae hyn yn cynnwys yr amrywiaeth o ddulliau trafnidiaeth sydd ar gael ar draws Ynys Môn fel ffyrdd, rheilffyrdd, yr awyr a'r môr.

Mae amcanion y Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig yn canolbwyntio ar leihau effeithiau niweidiol y Prosiect ar gymunedau ac ar yr amgylchedd, yn enwedig yn ystod y cam adeiladu, gan adael cyfraniadau cadarnhaol i'r system drafnidiaeth fel adeiladu rhannau newydd o ffordd, gwella priffyrdd ar y rhwydwaith a darparu llwybrau troed a llwybrau beicio ychwanegol.

Er mwyn gwneud hyn, rydyn ni wedi canolbwyntio ar gludo pobl, nwyddau a logisteg.



RHAGOR O WYBODAETH

Mae rhagor o wybodaeth am y Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig a'n Strategaeth Mynediad Cyhoeddus a Hamdden ar gael yn ein Taflenni Ffeithiau, sydd ar gael ar ffurf copi caled yn ein digwyddiadau ac ar ein gwefan yn: www.horizonnuclearpower.com/ymgyngghoriad.

MESURAU SYMUD POBL A CHYNLLUNIO TEITHIO

Rydyn ni'n bwriadu gweithio gyda'r gweithluoedd adeiladu a gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu dewisiadau teithio, gan eu hannog i ddefnyddio llai ar geir preifat. Byddwn yn paratoi Cynllun Teithio cyffredinol er mwyn cyflawni hyn a dyma rai o'r prif fesurau rydyn ni'n eu hystyried ar hyn o bryd:

- penodi Cydlynnydd Cynllun Teithio a fydd yn gweithio yn Safle'r Orsaf Bŵer
- cyflogi Cynrychiolwyr Cynllun Teithio a fydd ym mhob un o'r safleoedd Llety Gweithwyr Adeiladu yn ystod y cam adeiladu
- creu porth i archebu llety ar y rhyngwrdd ac ar gyfer cynllun i weithwyr rannu ceir
- darparu Pecyn Gwybodaeth Teithio i'r holl weithwyr cyn iddyn nhw ddechrau gweithio yn ystod y cam adeiladu neu'r cam gweithredu. Byddai hyn yn cynnwys manylion am ddewisiadau teithio cynaliadwy penodol Horizon ac ar draws Ynys Môn, am lwybrau cerdded a beicio i gyfleusterau lleol ac am y Porth Rheoli Llety Gweithwyr Adeiladu
- ymrwymiad i gyfyngu ar y parcio yn Safle'r Orsaf Bŵer, drwy system dyrannu tocynnau parcio ceir
- rhaglenni cymhellion i gyflwyno beicio i'r gwaith
- patrymau shifft ar adegau gwahanol er mwyn osgoi'r amseroedd teithio prysuraf

Ar hyn o bryd rydyn ni'n canolbwyntio ar y canlynol:

- **bysiau gwennol:** er mwyn gwneud dulliau eraill o deithio yr un mor ddeniadol â defnyddio ceir preifat, mae ein cynigion yn cynnwys nifer o wasanaethau a llwybrau bysiau gwennol:
- llwybrau penodol sydd â mannau codi sefydlog gydag arwyddion, ar hyd yr A5025 mae'n debyg, er mwyn gwasanaethu ochrau gogleddol a dwyreiniol Ynys Môn
- gwasanaeth bysiau gwennol ar gyfer y gweithwyr adeiladu o leoliadau arfaethedig y Llety Gweithwyr Dros Dro yn Amlwch, Rhosgoch ac yng Nghaergybi i Safle'r Orsaf Bŵer
- gwasanaeth bysiau gwennol o gyfnewidfeydd trafnidiaeth pwysig yng Nghaergybi a Maes Awyr Môn er mwyn darparu ar gyfer gweithwyr sy'n cyrraedd ar drên, ar fferi neu ar awyren



- **defnyddio'r rheilffyrdd:** fel rhan o'n hasesiad, rydyn ni wedi gweld mai dim ond i'r gweithwyr hynny sy'n teithio o Fangor a'r tu hwnt y bydd defnyddio'r trenau yn apelio atyn nhw. Er mwyn hybu hyn, rydyn ni'n bwriadu darparu bws gwennol o orsafoedd rheilffyrdd y Fali neu Gaergybi, gan ddiybnu ar y galw
- **cyfleusterau parcio a theithio:** rydyn ni'n cynnig creu cyfleuster parcio a theithio yn Dalar Hir, i'r gogledd ddwyrain o Gyffordd 4 yr A55. Mae'r dyluniad ar hyn o bryd yn cynnwys rhwng 2,000 a 3,000 o lefydd parcio a fyddai'n gyfle i ni drosglwyddo gweithwyr adeiladu sy'n defnyddio eu ceir ar fysiau gwennol ar gyfer y daith ar hyd yr A5025 i Safle'r Orsaf Bŵer
- **rheoli'r trefniadau parcio:** i ddechrau rydyn ni'n bwriadu darparu hyd at 1,000 o lefydd parcio yn Safle'r Orsaf Bŵer ar gyfer y gweithwyr adeiladu er mwyn sicrhau na fydd y Prosiect yn cyfrannu at barcio anghyfreithlon yn yr ardaloedd cyfagos. Bydd hyn yn cael ei leihau pan fydd ein cyfleusterau parcio a theithio ar waith. Yn ystod y cam gweithredu, rydyn ni'n bwriadu rhedeg system tocynnau parcio ar gyfer y gweithwyr hynny nad ydyn nhw'n gallu cyrraedd yr Orsaf Bŵer drwy ddulliau teithio sy'n fwy cynaliadwy
- **beicio:** er mwyn annog pobl i feicio fel rhan o'r Prosiect bydd llefydd diogel i barcio beics dan do ar gael yn unrhyw gyfleuster parcio a theithio, unrhyw safle Llety Gweithwyr Dros Dro ac yn Safle'r Orsaf Bŵer



SYMUD NWYDDAU A LOGISTEG

CANOLFAN LOGISTEG

Rydyn ni'n bwriadu danfon cynifer â phosibl o ddeunyddiau ac offer adeiladu yn uniongyrchol i Safle'r Orsaf Bŵer dros y môr. Byddwn ni hefyd yn dal i edrych ar ddefnyddio'r rheilffyrdd, ond rydyn ni'n cydnabod bod hyn yn golygu y byddai'n rhaid i ni wedyn gludo'r nwyddau ymlaen o'r rheilffyrdd ar y ffyrdd.

Er mwyn rheoli'r broses o symud deunyddiau adeiladu, rydyn ni'n bwriadu adeiladu canolfan logisteg yn y lleoliad rydyn ni'n ei ffafrio sef Parc Cybi, ar ochr ddeheuol Caergybi. Byddai'r ganolfan logisteg yn gallu delio â hyd at 100 o gerbydau nwyddau trwm ar unrhyw un adeg, gan ddelio â thua 40 o gerbydau nwyddau trwm bob awr ar y cyfnodau prysuraf a byddai cyfartaledd o tua 150 o gerbydau nwyddau trwm yn teithio bob dydd rhwng y ganolfan logisteg ac Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

Pan fo'n bosibl, byddwn yn cyfuno nwyddau llai, gan eu rhoi ar gerbydau mwy er mwyn lleihau faint o gerbydau fydd yn teithio ar hyd yr A5025. Fel rheol byddai'r rhain yn cynnwys danfon post a pharseli, bwyd, offer sbâr a deunyddiau traul eraill.



Y CYFLEUSTER DADLWYTHO MOROL

Er mwyn lleihau faint o gerbydau cludo nwyddau adeiladu fydd ar y ffyrdd ac er mwyn mynd i'r afael â phryderon diogelwch ar hyd y llwybr o Gaergybi i Safle'r Orsaf Bŵer, rydyn ni'n cynnig Cyfleuster Dadlwytho Morol ym Mhorth-y-pistyll. Bydd hyn yn golygu ei bod hi'n bosibl danfon y rhan fwyaf o nwyddau yn uniongyrchol i Safle'r Orsaf Bŵer dros y môr yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu.

Er mwyn defnyddio cymaint ag sy'n bosibl ar y Cyfleuster Dadlwytho Morol, rydyn ni'n cynnig ei adeiladu cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl cael y gorchymyn cydsyniad datblygu. Mae disgwyl i hyn ddechrau yn 2018 a chael ei gwblhau yn 2020 mewn da bryd ar gyfer y deunyddiau mawr cyntaf a fydd yn cael eu danfon i adeiladu'r Orsaf Bŵer.

Rydyn ni'n disgwyl y bydd y Cyfleuster Dadlwytho Morol yn gallu delio â thua 90% o'r deunyddiau mawr a'r rhan fwyaf o'r darnau mawr o offer y bydd eu hangen ar gyfer y gwaith adeiladu.



DID YOU KNOW?

Wrth ystyried y deunyddiau mawr yn unig, byddai defnyddio'r Cyfleuster Dadlwytho Morol yn cymryd lle dros 180,000 o lorïau yn ystod y prif gyfnod adeiladu.



RHAGOR O WYBODAETH

Rydyn ni'n amcangyfrif y byddai cyfuno llwythi llai yn lleihau nifer y cerbydau a fydd yn cael eu defnyddio i gludo deunyddiau traul a fydd yn teithio ar hyd yr A5025 tua 80%.

Diwallu gofynion trafnidiaeth y Prosiect

GWELLA FFYRDD A MESURAU GWELLA

Mae'r prif lwybr i Ardal Datblygu Wylfa Newydd o'r tir mawr a'r porthladd yng Nghaergybi yn rhedeg ar hyd yr A55, yr A5 a'r A5025. Rydyn ni'n cydnabod y bydd angen amrywiaeth o waith i wella'r briffordd er mwyn mynd i'r afael â phryderon diogelwch a phryderon amgylcheddol sydd eisoes yn bodoli.

Mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Ynys Môn, rydyn ni wedi nodi'r cynigion canlynol ar gyfer gwella'r briffordd er mwyn hwyluso llif y traffig ac er mwyn lleihau effeithiau'r Prosiect ar dagfeydd ac ar ddiogelwch ar y ffyrdd.

CYNIGION AR GYFER YR A5025

Gwelliannau i'r ffordd

Mae ein cynigion ar gyfer gwelliannau i ffordd yr A5025 yn gyffredinol yn cynnwys uwchraddio lleoliadau sydd eisoes yn bodoli lle rydyn ni wedi gweld cyfyngiadau, yn enwedig pan na fyddai'n bosibl i ddwy lori cludo nwyddau trwm basio ei gilydd yn ddiogel. Rydyn ni'n disgwyl i'r gwelliannau hyn gynnwys:

- lledu i led safonol, pan fo'n bosibl
- lledu'r briffordd yn ychwanegol ar drofeydd sy'n arbennig o dynn ar hyn o bryd
- ailadeiladu rhannau o'r A5025 a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer traffig adeiladu er mwyn sicrhau bod cyflwr y ffordd yn cael ei gynnal
- rhoi wyneb newydd ar rannau o'r A5025 lle bydd y briffordd yn cael ei hosgoi gan y newidiadau rydyn ni'n eu cynnig i'r ffordd
- rhoi wyneb newydd ar hyd yr A5025 i gyd rhwng y Fali a Safle'r Orsaf Bŵer, yn ogystal â'r rhannau o'r A5025 y byddwn ni'n eu hosgoi gyda'n cynigion
- pan fydd y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn torri ar draws yr A5025, bydd pwyntiau croesi a llwybrau beicio gydag wyneb priodol yn cael eu darparu



RHAGOR O WYBODAETH

Mae gwelliannau i'r ffordd yn golygu gwella'r ffordd bresennol, yn gyffredinol yng nghoridor presennol y briffordd.


Rydyn ni'n ystyried mai'r newidiadau i'r ffordd ydy'r rheini sy'n cynnwys adeiladu rhannau newydd o ffordd fel ffordd osgoi.

Newidiadau i'r ffordd

Rydyn ni'n cynnig newidiadau i'r ffordd mewn pedwar lleoliad rhwng y Fali a Safle'r Orsaf Bŵer, gan gynnwys:

- Gwella cyffordd yr A5/A5025 yn y Fali
- Ffordd osgoi Llanfachraeth
- Sythu ffordd Llanfaethlu
- Gwella rhwng Llanrhuuddlad a Chefn Coch

Roedden ni wedi gallu cyflwyno mwy o fanylion ynghylch y gwelliannau hyn i'r gymuned ym mis Gorffennaf 2015. Ar sail yr adborth o'r digwyddiadau hynny, ffocws ein prosiectau ffyrdd yn 2016 fydd datblygu dyluniad manwl a pharhau â'n gwaith arolygon amgylcheddol, a fydd yn arwain at gyflwyno ceisiadau am gydsyniad ar gyfer y gwelliannau a'r newidiadau i'r ffordd. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwelliannau'n cael eu gwneud cyn cyfnod prysuraf y cam adeiladu. Rydyn ni'n disgwyl y byddai'r gwelliannau i'r ffordd yn dechrau yn syth ar ôl cael cydsyniad cynllunio a byddai'r newidiadau i'r ffordd yn dechrau ar ôl cael gorchymyn cydsyniad datblygu ar gyfer y Prosiect.



Aliniadau dangosol ar gyfer gwelliannau posibl i'r ffordd

GWELLA LÔN NANNER

Bydd datblygu'r Orsaf Bŵer yn golygu bod angen cau rhan o Ffordd Cemlyn sy'n rhedeg o Dregele i Fae Cemlyn, i'r gorllewin o Safle'r Orsaf Bŵer (fel sy'n cael ei ddangos ar dudalen 18). Rydyn ni'n cydnabod y bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar Lôn Nanner ac rydyn ni wedi asesu amrywiaeth o ddewisiadau gwella.

Drwy weithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn, rydyn ni wedi ymrwymo i adeiladu manau pasio mewn lleoliadau amrywiol ar hyd Lôn Nanner a bydd y rhain yn barod cyn cau Ffordd Cemlyn.

Mewn manau lle bydd gwella'r briffordd yn golygu dymchwel waliau sych, rydyn ni wedi ymrwymo i ailgodi'r waliau i gadw cymeriad y ffordd a'r ardal.

Mae cyfleustodau wrthi'n cael eu gwro ar hyd Lôn Nanner ar hyn o bryd. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y gwaith i wella Lôn Nanner yn cael ei wneud ddiwedd 2016 er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar dwristiaeth ac amaethyddiaeth gerllaw.



A5025 YR ORSAF BŴER I AMLWCH

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu bysiau gwennol i gludo gweithwyr adeiladu i Safle'r Orsaf Bŵer ac rydyn ni'n cydnabod y gallai dewisiadau rhentu preifat a dewisiadau rhentu o'r sector twristiaeth fod yn ardaloedd gogleddol a dwyreiniol Ynys Môn. Ar ben hynny, mae ein Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu nawr wedi nodi posiblwydd darparu llety ar gyfer rhai o'n gweithwyr adeiladu yn ardal Amlwch, a gallai hyn gynnwys datblygiad Llety Gweithwyr Dros Dro mawr yn Rhosgoch.

Rydyn ni'n cydnabod y bydd ein Prosiect yn cynyddu nifer y siwrneiau ar hyd yr A5025 rhwng Safle'r Orsaf Bŵer ac Amlwch, fodd bynnag, nes i ni benderfynu ar ein dull terfynol o ddarparu llety i weithwyr adeiladu, does dim modd i ni fod yn siŵr pa mor fawr fydd y cynnydd hwn.

Cyn penderfynu ar hyn, rydyn ni'n astudio'r ffordd bresennol rhwng Cemaes ac Amlwch, gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae lled y ffordd yn gyfyng ar hyn o bryd neu ardaloedd lle rydyn ni'n gwybod bod peryglon diogelwch ar hyn o bryd fel Llanbadrig, ger Burwen, ac yn Amlwch.



CWESTIWN – CYNLLUNIO TEITHIO

Rydyn ni wedi datblygu pecyn o fesurau trafndiaeth sy'n creu ein Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig gyffredinol, gyda'r nod o leihau effeithiau andwyol y Prosiect (yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu), gan gynnwys nifer o gyfleusterau a chynigion rydyn ni wedi ymgynghori yn eu cylch yn barod gan gynnwys gwella'r A5025, cyfleusterau parcio a theithio, Cyfleuster Dadlwytho Morol a chanolfan logisteg.

Gan ystyried yr ystod o fesurau rydyn ni'n eu cynnig, a oes unrhyw beth arall y dylen ni ei ystyried wrth lunio ein cynigion traffig a thrafnidiaeth terfynol ar gyfer y Prosiect?

PONT BRITANNIA

Ar hyn o bryd rydyn ni'n cynnal astudiaethau i ymchwilio i ba effeithiau, os o gwbl y gallai'r Prosiect eu cael ar Bont Britannia ac rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn i ystyried y mater. Mae ein cam nesaf yn y broses hon yn cynnwys rhagor o waith modelu traffig i ddod o hyd i'r oedi posibl a fydd yn digwydd oherwydd traffig cerbydau ar y bont. Ar ôl i ni ddeall unrhyw effeithiau yn well, byddwn ni'n ymchwilio i ffyrdd o leihau'r rhain yn ystod yr oriau brig. Gallai mesurau lliniaru posibl gynnwys newidiadau i'r cynllun ymuno ar gyfer rhai cyffyrdd ar hyd yr A55 a chynllunio teithiau gwyrdd ar gyfer siwrneiau i'r cyfleuster parcio a theithio.




Y cyd-destun amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol

Gan adeiladu ar y gwaith rydyn ni wedi'i baratoi ar gyfer cam cyntaf ein hymgynghoriad cyn ymgeisio, rydyn ni wedi dal ati i astudio'r amgylchedd yn helaeth yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd a'r ardal gyfagos. Rydyn ni hefyd wedi cynnal astudiaethau cychwynnol o'r ardaloedd o dir rydyn ni'n meddwl y byddwn ni eu hangen ar gyfer ein Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'n Datblygiadau Cysylltiedig. Mae'r astudiaethau hyn yn ein helpu i ganfod lle mae yna dderbynyddion fel pobl, anifeiliaid, a phlanhigion a allai fod yn arbennig o sensitif i ddatblygu a sicrhau bod ein Prosiect yn ystyried hyn.

Rydyn ni hefyd wedi cwblhau nifer o astudiaethau manwl er mwyn i ni ddeall y nodweddion economaidd-gymdeithasol ar draws Ynys Môn a Gogledd Cymru yn well gan ganolbwyntio ar y bobl sy'n byw ar Ynys Môn ac sy'n ymweld â'r Ynys; a nodweddion unigryw y pentrefi, y trefi a'r cymunedau mae ein Prosiect yn debyg o effeithio arnyn nhw. Mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol cymunedau lleol ar draws Ynys Môn a Gogledd Gwynedd. Mae effaith y Prosiect ar y Gymraeg yn cael ei hystyried ar draws pob disgyblaeth, yn enwedig y cyd-destun economaidd-gymdeithasol.

Mae'r gwaith hwn yn bwysig er mwyn ein helpu i ddatblygu strategaethau ar gyfer addysg, swyddi a sgiliau, ac ymgysylltu â chyflenwyr lleol a rhanbarthol ar gyfer ein Prosiect, yn ogystal â deall effaith ein Prosiect ar y Gymraeg ac ar iechyd a lles trigolion Ynys Môn.



Yr amgylchedd lleol – dynodiadau allweddol

YR AMGYLCHEDD LLEOL

Mae yna nifer o safleoedd ac adeiladau arbennig yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd a gerllaw y bydd angen i ni eu hystyried wrth ddatblygu'r Prosiect.

Mae nifer o hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a'r Trywydd Copr (llwybr beicio cenedlaethol) hefyd yn croesi Ardal Datblygu Wylfa Newydd ac rydyn ni'n edrych ar y ffordd orau o ddelio â'r rhain yn ein Prosiect. Mae gorsaf bŵer bresennol Magnox yn elfen amlwg yn y dirwedd ac mae'n rhan bwysig o'r cyd-destun gweledol ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd a'r gwaith tirwedd sy'n cael ei gynnig.

STATWS YR ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL

Bydd camau adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer yn arwain at amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol ac economaidd gymdeithasol. Ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, rydyn ni wedi nodi'r effeithiau amgylcheddol posibl (yn gadarnhaol ac yn negyddol) rydyn ni'n credu allai godi yn sgil ein Prosiect. Pan fo hynny'n bosibl ar y cam hwn rydyn ni hefyd wedi nodi mesurau gwella a lliniaru er mwyn mynd i'r afael â'r effeithiau sylweddol a ddisgwylir. Mae'r broses asesiad o'r effaith amgylcheddol yn parhau a bydd yn dal i ddatblygu hyd at gyflwyno ein cais am y gorchymyn cydsyniad datblygu.

CYMDEITHASOL-ECONOMAIDD

TAI

Er mwyn adeiladu'r Orsaf Bŵer, byddai angen gweithlu dros dro mawr y bydd angen eu lletya yn agos at Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Rydyn ni'n cydnabod y gallai cael nifer mawr o bobl yn byw ac yn gweithio yn yr ardal effeithio ar y llety sydd ar gael a'i gost, yn ogystal â'r galw ar gyfleusterau cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus.

Er mwyn gwneud iawn am yr effeithiau hyn, rydyn ni'n cynnig ffyrdd o reoli'r llety ar gyfer ein gweithwyr adeiladu a fyddai'n lleihau'r effaith bosibl ar dai rhent preifat ac yn cynyddu'r manteision lleol i economi Ynys Môn. Rydyn ni hefyd ar ganol penderfynu ar y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd a chyfleusterau hamdden ar gyfer y gweithwyr adeiladu er mwyn creu manteision i'r dyfodol ar gyfer Ynys Môn.

ADDYSG A HYFFORDDIANT

Byddai nifer mawr o swyddi'n cael eu creu yn yr ardal yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar draws amrywiaeth o sectorau, a fyddai'n cynyddu'r lefelau sgiliau yn y gymuned leol. Bydd cynlluniau addysg, swyddi a sgiliau'n cael eu rhoi ar waith er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer y gweithlu lleol.

TWRISTIAETH

Mae'n bosibl y gallai prosiect adeiladu mawr fel ein un ni effeithio ar dwristiaeth ar Ynys Môn. Wrth i waith fynd rhagddo i ddeall yr effeithiau penodol ar y diwydiant twristiaeth, mae'n bosibl y bydd newidiad mewn patrymau ymwelwyr o ran niferoedd a phatrwm eu gwariant. Rydyn ni hefyd yn asesu'r effaith ar y galw am lety i dwristiaid a faint ohono sydd ar gael. Fodd bynnag, bydd darparu Llety Gweithwyr Dros Dro yn helpu i leihau'r effeithiau posibl ar lety i dwristiaid.

Drwy gyflwyno canolfan ymwelwyr newydd i Ynys Môn fel rhan o'r Prosiect, rydyn ni'n disgwyl y bydd canlyniad cadarnhaol i dwristiaeth drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr a'r gwariant yn yr ardal.



Y cyd-destun amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol

TRAFFIG A THRAFNIDIAETH

Rydyn ni'n gwerthfawrogi y gallai cyflwyno offer a pheiriannau yn ogystal â chludo deunyddiau, nwyddau a gweithwyr adeiladu arwain at gynyddu'r traffig a allai effeithio ar gymunedau lleol, gan gynnwys drwy newidiadau i ansawdd yr aer a lefelau sŵn a dirgryndod. Rydym ni'n edrych ar nifer o ffyrdd i reoli traffig adeiladu, gan gynnwys defnyddio canolfan logisteg a fydd yn rheoleiddio llif cerbydau nwyddau trwm ar y rhwydwaith ffyrdd. Rydym ni hefyd yn cynnig creu o leiaf un cyfleuster parcio a theithio a fydd yn defnyddio gwasanaeth bysiau arbennig i Safle'r Orsaf Bŵer, gan leihau faint o gerbydau preifat sy'n defnyddio'r ffyrdd lleol.

Rydym ni hefyd yn bwriadu adeiladu a gweithredu Cyfleuster Dadlwytho Morol, a fydd yn golygu bod modd danfon y rhan fwyaf o ddeunyddiau adeiladu yn uniongyrchol dros y môr i Safle'r Orsaf Bŵer. Bydd y gwaith sy'n cael ei gynnal i'r A5025 yn gwella safon y ffordd rhwng y Fali a'r Orsaf Bŵer, gyda ffyrdd osgoi a gwelliannau i gyffwrdd er mwyn mynd â thraffig i ffwrdd o gymunedau'r Fali, Llanfachraeth, Llanfaethlu a Chefn Coch. Byddwn hefyd yn gweithredu cynllun rheoli traffig er mwyn rheoli symudiad cerbydau adeiladu ar draws Ynys Môn.

MYNEDIAD CYHOEDDUS A HAMDDEN

Cyn dechrau adeiladu'r Orsaf Bŵer, bydd yn rhaid i nifer o hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybr beicio'r Trywydd Copr, gael eu dargyfeirio neu eu cau dros dro. Dros amser, bydd yn rhaid i ni hefyd gau Ffordd Cemlyn a'r ffordd at faes parcio'r pysgotwyr, a chau'r maes parcio ei hun. Rydym ni'n dal i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o leihau'r effeithiau posibl ar fynediad cyhoeddus a hamdden, ond rydym ni wedi ymrwymo i gadw'r fynediad at lwybrau troed a hawliau tramwy cyhoeddus pan fo'n bosibl a'u hadfer ar ôl i'r gweithgareddau adeiladu gael eu cwblhau.

SŴN AC ANSAWDD AER

Yn anochel bydd adeiladu'r Orsaf Bŵer yn arwain at gynydd mewn lefelau sŵn a dirgryndod o ganlyniad i ddefnyddio peiriannau trwm, gweithgareddau symud pridd a chynnydd yn y traffig ar ffyrdd cyfagos. Gallai defnyddio'r offer, y gweithgareddau symud pridd a'r cynnydd yn y traffig hefyd effeithio ar ansawdd aer.

Rydym ni'n datblygu Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol sy'n cynnwys manylion ynghylch sut rydym ni'n bwriadu datblygu twmpathau o amgylch yr ardal adeiladu, gan helpu i leihau'r effeithiau sŵn ar y pentrefi cyfagos. Bydd arferion adeiladu da yn cael eu defnyddio i leihau'r sŵn a'r dirgryndod fel cyfyngu ar weithgareddau sy'n arbennig o swmlyd i adegau priodol o'r dydd. Rydym ni'n cynnig defnyddio'r Cyfleuster Dadlwytho Morol i ddanfon cymaint o'r deunyddiau adeiladu ag y bo modd, a fydd yn lleihau'r effaith bosibl ar ansawdd aer oherwydd symudiadau traffig ychwanegol.



ECOLEG Y MÔR

Bydd adeiladu'r morgloddiau, y Cyfleuster Dadlwytho Morol a'r system dŵr oeri yn golygu llawer iawn o weithgarwch yn yr amgylchedd morol ac arfordirol. Efallai y bydd newidiadau i nifer o nodweddion ar wely'r môr a'r morlin, a allai effeithio ar brosesau arfordirol e.e. cerrynt a thonau. Gallai gweithgareddau adeiladu effeithio ar ansawdd dŵr a chynyddu'r lefelau golau, sŵn a dirgryndod, a gallai hyn olygu niweidio, colli neu amharu ar gynefinoedd ac anifeiliaid morol.

Yn ystod y cam gweithredu mae'n bosibl i'r cerrynt newid hefyd a gallai defnyddio'r system dŵr oeri effeithio ar fywyd morol.

Er mwyn gwneud iawn am yr effeithiau posibl hyn, rydym ni'n edrych ar fesurau rheoli a nodweddion dylunio a allai gynnwys darparu cynefinoedd newydd ar strwythurau'r morglawdd, systemau achub a dychwelyd pysgod, cynnal llwybr mudo pysgod a gweithredu ardaloedd dan waharddiad er mwyn diogelu mamaliaid morol.

ECOLEG Y TIR

Mae gan Ynys Môn ystod eang o anifeiliaid, planhigion a chynefinoedd ac mae rhai o'r rhain yn cael eu diogelu'n arbennig. Gallai'r cam adeiladu olygu niweidio, colli neu amharu ar y rhywogaethau hyn a'r cynefinoedd sy'n eu cynnal. Gallai'r cam gweithredu hefyd olygu effeithiau mawr, o newidiadau i ansawdd aer sy'n gysylltiedig ag allyriadau cerbydau ac offer, ac amharu oherwydd sŵn, dirgryndod a golau yn yr Orsaf Bŵer. Er mwyn lleihau'r effeithiau hyn pan fo'n briodol byddai rhywogaethau a warchodir yn cael eu symud, byddai cynefinoedd addas yn cael eu creu (e.e. ysguboriau ystlumod), a byddai arferion adeiladu da a chynlluniau rheolaeth amgylcheddol yn cael eu dilyn.

Ar hyn o bryd rydym ni'n cynnal yr Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd angenrheidiol er mwyn gweld beth fydd effeithiau posibl y Prosiect ar safleoedd Ewropeaidd dynodedig cyfagos (ee Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Cemlyn) a byddwn yn ystyried safleoedd ar gyfer symud adnoddau ecolegol iddyn nhw.

Y DIRWEDD

DRAENIO

Yn ystod camau cynnar y gwaith adeiladu bydd angen symud llawer iawn o bridd a chreigiau o amgylch Ardal Datblygu Wylfa Newydd i lefelu Safle'r Orsaf Bŵer er mwyn paratoi ar gyfer y prif waith adeiladu. Bydd newid ffurf y tir yn newid y dirwedd ac yn effeithio ar y dŵr daear a'r dŵr wyneb. Bydd cyrsiau dŵr yn cael eu symud, a byddai lefelau dŵr daear a dŵr wyneb, patrymau llif ac ansawdd dŵr yn gallu newid. Gallai hyn effeithio ar gynefinoedd sy'n dibynnu ar ddŵr fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Tre'r Gof. Ar hyn o bryd rydyn ni'n datblygu cynllun draenio a fydd yn cynnal llif ac ansawdd presennol y dŵr ar draws Ardal Datblygu Wylfa Newydd, pan fo'n bosibl, ac yn cynnwys plannu mor gynnar ag sy'n bosibl yn y cam adeiladu er mwyn lleihau dŵr wyneb ffo.

PRIDD A DAEAREG

Yn ystod y cam adeiladu ac wrth gloddio creigiau a phridd a symud pridd mae'n bosibl y byddwn yn colli uwchbridd amaethyddol neu y bydd ei ansawdd yn gostwng; bydd amharu ar halogiad sydd eisoes yno oherwydd bod pridd yn cael ei symud; difrod neu golli mynediad at Safleoedd sydd â Phwysigrwydd Rhanbarthol o ran eu Daeareg; a gollyngiadau damweiniol a allai arwain at halogiad newydd. Bydd cynllun rheolaeth amgylcheddol yn cael ei baratoi a fydd yn helpu i ddiogelu adnoddau daearegol a phridd.

Y DIRWEDD A NODWEDDION GWELEDOL

Yn ystod y cam adeiladu, bydd y newid i'r dirwedd yn effeithio ar gymeriad y dirwedd, gan gynnwys cyd-destun gweledol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, tirwedd hanesyddol, Gerddi Cestyll ac ardaloedd cadwraeth, a golygfeydd ac amwynder gweledol (gan gynnwys golau yn ystod y nos). Byddwn yn lleihau neu'n osgoi effeithiau ar dirwedd a threftadaeth pan fydd hynny'n bosibl, drwy ddilyn ein Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol sy'n cynnig creu twmpathau i helpu i integreiddio'r Orsaf Bŵer i'r dirwedd a sgrinio i wella'r golygfeydd (edrychwch ar dudalennau 17 i 20).

DIWYLLIANNOL AC ARCHAEOLEGOL

Gallai adeiladu'r Orsaf Bŵer effeithio ar gyd-destun gweledol asedau archaeolegol. Ar ben hynny gallai cloddio'r pridd yn ystod y cam adeiladu effeithio ar weddillion archaeolegol sydd wedi cael eu claddu. Rydyn ni'n cynnig lleihau'r effeithiau andwyol ar asedau treftadaeth drwy: gofnodi asedau, a phan fo'n ymarferol, eu cadw yn eu cyd-destun gweledol presennol; cloddio gweddillion archaeolegol a thirweddau i sgrinio'r gweithgareddau adeiladu a gweithredu. Ar hyn o bryd mae gennym ni dîm o archaeolegwyr ar y safle sy'n cynnal un o'r prosiectau gwerthuso archaeolegol mwyaf yn y DU a fydd yn ein helpu i ddod o hyd i ardaloedd posibl o archaeoleg sydd heb gael ei ganfod eto a chadarnhau'r mathau o effeithiau sy'n debyg o ddigwydd oherwydd y Prosiect.

EFFEITHIAU CRONNUS

Mae modd disgrifio effeithiau cronrus fel effeithiau ar yr amgylchedd sy'n cael eu hachosi drwy gyfuno canlyniadau gweithgareddau o'r gorffennol, gweithgareddau presennol a gweithgareddau yn y dyfodol. Mae'r term hwn yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio sut byddai ein Prosiect yn rhyngweithio â phrosiectau eraill mae disgwyl iddyn nhw gael eu cynnal yn yr ardal gyfagos. Rydyn ni wedi bod yn gweithio i ddod o hyd i'r prosiectau hynny mae'n bosibl iddyn nhw orgyffwrdd â'n prosiect ni a deall posibilrwydd effeithiau amgylcheddol cronrus. Wrth i'n gwaith fynd rhagddo, byddwn ni'n gweithio gyda datblygwyr y prosiectau dan sylw i ddeall yr effeithiau ac unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol.



Yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant

Yng Nghymru, mae'n rhaid i ddatblygwyr prosiectau mawr fel ein prosiect ni gwblhau asesiad er mwyn deall sut gallai'r cynigion effeithio ar y Gymraeg a'i diwylliant – Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ydy'r enw ar hyn.

Rydyn ni wedi creu Grŵp Llywio'r Gymraeg sydd â chadeirydd annibynnol ac mae'r grŵp wedi bod yn gweithio gyda ni i ddatblygu methodoleg systematig ar gyfer yr asesiad. Bydd y Grŵp Llywio yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn ein cynghori ynghylch ein gwaith asesu a thrafod ein canfyddiadau wrth iddyn nhw ddod i'r fei.



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae ein Grŵp Llywio'r Gymraeg yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol, Comisiynydd y Gymraeg ac Isadran y Gymraeg Llywodraeth Cymru fel arsylwyr i'r gwaith asesu:

- Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd
- Uned Iaith a Gwasanaethau Democrataidd Cymor Gwynedd
- Cymor Sir Ynys Môn – Datblygu Economaidd, Addysg, Polisi Corfforaethol a'r Swyddog Iaith Gymraeg
- Menter Môn
- Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa
- Horizon

METHODOLEG

Mae cyfres o gamau'n perthyn i'n methodoleg asesu:

CAM 1 – CANFOD BETH YDY'R WAELODLIN

Mae'r cam hwn yn edrych ar wybodaeth am y nodweddion sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn cymunedau ar draws Ynys Môn. Mae'n defnyddio gwybodaeth am y boblogaeth, y bobl sy'n darllen ac yn siarad Cymraeg, cyflogaeth, ysgolion, tai, y mathau o grwpiau cymunedol a chymdeithasol, mynediad at wasanaethau cyhoeddus, iechyd a lles a thwristiaeth er mwyn llunio darlun o sut mae'r Gymraeg yn ffitio mewn bywyd o ddydd i ddydd.

CAM 2 – ASESU EFFEITHIAU EIN PROSIECT AR Y WAELODLIN

Mae'r cam hwn yn golygu cynnal adolygiad manwl o'r wybodaeth a gafodd ei chasglu yng Ngham 1 er mwyn deall yn well beth sy'n wahanol rhwng ardaloedd Ynys Môn a pha mor sensitif gallai cymuned benodol fod i newid mewn patrymau defnyddio'r Gymraeg. Mae effeithiau posibl y Prosiect ar y cymunedau a'r nodweddion gwahanol yn cael eu nodi fel rhan o Gam 2.



CAM 3 – ASESAD AR SAIL CWESTIYNAU RHESTR WIRIO

Mae ein methodoleg yn golygu ateb rhestr wirio o 18 cwestiwn sy'n seiliedig ar Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y ffordd Ymlaen. Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag effeithiau ac effeithiau posibl y Prosiect ar bum agwedd ganlynol bywyd cymunedol:

- nodweddion y boblogaeth
- ansawdd bywyd
- ffactorau economaidd
- agweddau cymdeithasol a diwylliannol
- cyflenwad seilwaith

Mae'r atebion i'r cwestiynau'n cael eu defnyddio i grwpio'r effeithiau ar y Gymraeg fel rhai cadarnhaol, rhai negyddol neu rai niwtral. Bydd pob cwestiwn wedyn yn cael ei sgorio o ran pwysigrwydd, ar sail y trafodaethau rydyn ni wedi'u cael gyda'r hen Fwrdd yr Iaith. Drwy gyfateb y math o effaith â sgôr y cwestiwn, mae'r broses asesu yn rhoi marc ar gyfer pob cwestiwn sy'n rhoi dealltwriaeth well o lle mae ein Prosiect yn fwyaf tebygol o gael effeithiau negyddol y byddai angen eu goresgyn, neu effeithiau cadarnhaol y gallem ni geisio eu gwella.

CAM 4 – MONITRO EFFAITH Y PROSIECT

Bydd y cam hwn yn parhau drwy gydol ein Prosiect. Mae'n golygu monitro data i dracio pa mor effeithiol ydy ein mesurau lliniaru a'n cynigion ar gyfer gwella o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.

CANFYDDIADAU CYCHWYNNOL

Fel rhan o'n Hasesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg, rydyn ni wedi bod yn gweithio i ddod o hyd i effeithiau posibl ein Prosiect. Mae ein canfyddiadau cychwynnol wedi dod o hyd i rai o effeithiau tebygol a dyma'r meysydd lle rydyn ni'n disgwyl gwneud rhagor o waith, gyda'n Grŵp Llywio a'r ymgynghoreion technegol, er mwyn meddwl am syniadau ar gyfer mesurau lliniaru a gwella posibl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- effeithiau negyddol posibl ar y Gymraeg oherwydd maint ein gweithlu adeiladu, yn enwedig gweithwyr dros dro na fyddan nhw'n rhai lleol
- posibilrwydd newid yn y farchnad dai o ganlyniad i'r galw. Gall hyn fod o fudd i rai sectorau fel twristiaeth, ond gallai gyflwyno cystadleuaeth gyda phobl lleol, yn enwedig ar gyfer llety rhent preifat
- y posibilrwydd i'r Gymraeg gael ei defnyddio llai mewn ysgolion ac mewn grwpiau o ffrindiau, gan ddibynnu ar faint o weithwyr adeiladu fydd yn dod â'u teuluoedd i'r ardal
- effeithiau cadarnhaol posibl ar y nifer sy'n symud allan o'r ardal oherwydd y nifer mawr o gyfleoedd gwaith ac anogaeth i rai pobl lleol ddychwelyd i'r ardal
- effeithiau cadarnhaol posibl oherwydd mwy o refferniw i ystod eang o fusnesau lleol, gan gynnwys y rheini sy'n cefnogi gweithgareddau adeiladu a thwristiaeth
- newidiadau i nodweddion cymunedau Ynys Môn, a allai olygu amrywiaeth o effeithiau. Gall y rhain gynnwys tensiynau rhwng grwpiau cymdeithasol gwahanol a mwy o ofn o drosedd

Y CAMAU NESAF

Wrth i'n cynigion gael eu datblygu'n fanylach, byddwn ni'n gallu adolygu proses Cam 3 er mwyn deall arwyddocâd yr effeithiau'n well. Bydd hyn yn gyfle i ni, gyda'r Grŵp Llywio, ddatblygu ein syniadau ynghylch y mathau o fesurau lliniaru a gwella a fydd yn fwyaf effeithiol ar gyfer y Gymraeg a'i diwylliant, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer monitro ein cynigion. Bydd adroddiad interim yn cael ei gyhoeddi yn ystod ail gam ein hymgyngoriad cyn ymgeisio gan gyflwyno canfyddiadau cyntaf ein proses asesu. Bydd adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg terfynol yn cael ei gyflwyno gyda'n cais am orchymyn cydsyniad datblygu.



CWESTIWN - Y GYMRAEG A'I DIWYLLIANT

Mae Horizon yn awyddus i glywed eich barn chi ynghylch sut mae modd diogelu a gwella diwylliant a hunaniaeth y gymuned Gymraeg. Gallai hyn gynnwys y dewisiadau sydd orau gennych chi ar gyfer gwella pwyntiau ffocws lleol, fel traeth Cemaes, neu fesurau i annog pobl i ddefnyddio arferion lleol neu'r Gymraeg.

Gan gyfeirio at yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, disgrifiwch unrhyw faterion pwysig i'ch cymuned leol rydych chi'n meddwl y dylai Horizon eu hystyried a rhannwch unrhyw awgrymiadau y byddech chi'n hoffi i ni eu pwysu a'u mesur ymhellach.

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

Rydyn ni'n defnyddio proses o'r enw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i ystyried effeithiau posibl y Prosiect ar iechyd a lles. Mae cam cyntaf yr asesiad yn canolbwyntio ar ddeall nodweddion presennol iechyd a lles ar draws Ynys Môn, Gogledd Cymru a'r DU. Byddwn wedyn yn defnyddio'r wybodaeth hon i edrych ar sut gall ein Prosiect effeithio ar wahanol agweddau o iechyd a lles. Mae canfyddiadau ein gwaith asesiad o'r effaith amgylcheddol yn plethu'n agos â'n hasesiad o'r effaith ar iechyd.



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae ein methodoleg Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn defnyddio'r tri chanllaw hyn:

- canllaw ymarferol Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Uned Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cymru. Mae hwn wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei ddefnyddio'n aml ar draws Cymru a dyma'r arfer gorau yn rhyngwladol
- Asesiad o'r effaith ar les meddyliol – pecyn ar gyfer lles. Mae hyn yn edrych ar sut mae iechyd meddwl yn gysylltiedig â materion cymdeithasol ac amgylcheddol
- teclyn Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Ynys Môn, sy'n ychwanegu cyd-destun lleol at ein gwaith

METHODOLEG

Mae cyfres o gamau'n perthyn i'n methodoleg asesu:

CAM 1 – CANFOD BETH YDY'R WAELODLIN

Mae'r cam hwn yn edrych ar wybodaeth am nodweddion presennol cymunedau ar draws Ynys Môn a Gogledd Cymru, yn enwedig y cymunedau hynny sydd agosaf at Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Mae'n defnyddio gwybodaeth am y boblogaeth, ysgolion, defnyddio'r Gymraeg, bywyd cymunedol, meddygfeydd, cyfran yr afiechydon a ffactorau risg eraill er mwyn llunio darlun o iechyd a lles y cymunedau hyn. Mae'r darlun hwn yn dangos pa mor sensitif gallai cymunedau lleol fod i effeithiau posibl y Prosiect.

CAM 2 – ASESU EFFAITH EIN PROSIECT AR Y WAELODLIN

Bydd y wybodaeth a fydd wedi cael ei chasglu yng Ngham 1 a thystiolaeth wyddonol ychwanegol yn cael eu defnyddio yn y cam hwn. Mae'r asesiad yn ystyried sensitifrwydd cymunedau y bydd effaith arnyn nhw, yn ogystal â hyd a lled y newid oherwydd camau adeiladu a gweithredu'r Prosiect. Mae'r asesiad o hyd a lled yn edrych ar y newidiadau mewn amodau cymdeithasol neu amgylcheddol oherwydd y Prosiect, yn unol â'r asesiadau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol manwl rydyn ni wedi bod yn eu cynnal. Byddwn yn defnyddio crebwyll proffesiynol i benderfynu a fydd effaith yn niweidiol neu'n fanteisiol a pha mor arwyddocaol fydd effeithiau posibl. Bydd canlyniadau'r asesiad yn helpu i lunio'r mesurau lliniaru y byddwn ni efallai eu hangen i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol, a sut gallwn ni wella unrhyw effeithiau cadarnhaol.

CAM 3 – MONITRO A RHEOLI

Bydd y cam hwn yn parhau drwy gydol ein Prosiect. Mae'n golygu monitro gwybodaeth i dracio pa mor effeithiol ydy ein mesurau lliniaru a'n cynigion ar gyfer gwella o ran iechyd a lles cymunedau lleol.



CANFYDDIADAU CYCHWYNNOL

Rydyn ni wedi dechrau ein gwaith asesu drwy edrych ar y cymunedau sydd agosaf at Ardal Datblygu Wylfa Newydd oherwydd rydyn ni'n disgwyl mai yn y mannau hynny bydd yr effeithiau amgylcheddol yn fwyaf amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys Treglele a Chemaes.

Mae ein canfyddiadau cychwynnol wedi awgrymu nifer o ffyrdd y gallai'r Prosiect effeithio ar iechyd a lles:

- bydd y Prosiect yn rhoi hwb i'r economi leol ac yn darparu cyfleoedd gwaith, sydd o fudd i iechyd cyffredinol a lles meddyliol, gydag effeithiau cadarnhaol ar deuluoedd
- bydd y Prosiect yn ei gwneud hi'n haws cael gafael ar yr addysg a'r hyfforddiant sydd eu hangen er mwyn manteisio ar gyfleoedd gwaith, yn enwedig ar gyfer pobl leol, a fydd o fudd i Ynys Môn ac i Ogledd Cymru
- mae sicrwydd cyflenwad pŵer yn bwysig iawn i iechyd a lles y cyhoedd a bydd y Prosiect yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r agwedd hon o fywyd bob dydd
- bydd gwella llwybrau trafnidiaeth fel yr A5025 a rhwydwaith newydd i gerddwyr a beicwyr o amgylch yr Orsaf Bŵer yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar iechyd ac ar les
- yn ystod y cam adeiladu, efallai bydd y Prosiect yn codi'r lefelau llwch, sŵn a dirgryndod a rhywfaint o weithgareddau yn ystod y nos a fydd yn gallu cyfuno i amharu ar arferion dyddiol a phatrymau cysgu
- gall gweithlu adeiladu mawr newid bywyd cymunedol sydd wedi hen ennill ei blwyf, gan gynnwys newidiadau go iawn a'r canfyddiad o newidiadau mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, ysmegu a defnyddio alcohol, yn ogystal â phryderon o ran lefelau troseddau a thensiynau cymdeithasol
- bydd y Prosiect yn newid y dirwedd o amgylch Safle'r Orsaf Bŵer a allai effeithio ar hunaniaeth cymunedau, rhwydweithiau cymdeithasol neu ddiwylliant
- gall newidiadau o ran mynediad at lwybrau hamdden presennol, yn enwedig yn ystod y cam adeiladu, olygu na fydd pobl yn mynd am dro neu'n beicio



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Rydyn ni wedi creu Grŵp Llywio er mwyn i randdeiliaid lleol allu bod yn rhan o'n gwaith Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

Mae'r Grŵp Llywio yn cael ei gadeirio gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac mae'n cynnwys:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Uned Cymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa
- Horizon

Rydyn ni hefyd yn gwahodd Cyfoeth Naturiol Cymru, Public Health England a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear i arsylwi'r Grŵp Llywio.

Y CAMAU NESAF

Wrth i ni ychwanegu rhagor o fanylion at ein cynigion byddwn ni'n gallu rhagweld yr effeithiau ar iechyd ac ar les y gallai pobl eu teimlo oherwydd ein Prosiect.

Pan fydd y wybodaeth fanylach hon ar gael, byddwn yn datblygu syniadau ar gyfer mesurau lliniaru a allai osgoi neu leihau unrhyw effeithiau negyddol a chreu cynlluniau ar gyfer gwella'r effeithiau cadarnhaol.

Byddwn yn parhau i rannu ein canfyddiadau â'r Grŵp Llywio ac yn gofyn am eu helpu i ddod o hyd i fesurau lliniaru priodol. Bydd adroddiad interim yn cael ei gyhoeddi yn ystod ail gam ein hymgynghoriad cyn ymgeisio gan gyflwyno canfyddiadau cyntaf ein gwaith asesu. Bydd adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Iechyd terfynol yn cael ei gyflwyno gyda'n cais am orchymyn cydsyniad datblygu.



CWESTIWN - IECHYD A LLES

Mae Horizon eisiau clywed eich barn chi ynghylch sut byddai modd diwallu anghenion ein gweithwyr adeiladu o ran gwasanaethau meddygol a gofal iechyd. Er enghraifft, byddai modd darparu'r gwasanaethau hyn drwy wella'r gwasanaethau iechyd lleol sydd ar gael ar hyn o bryd gan eu rhannu â'r gweithlu adeiladu neu drwy ddarparu gwasanaethau ar wahân ar gyfer y gweithwyr adeiladu'n benodol.

Gan gyfeirio at iechyd a lles, disgrifiwch unrhyw faterion pwysig i'ch cymuned leol rydych chi'n meddwl y dylai Horizon eu hystyried a rhannwch unrhyw awgrymiadau y byddech chi'n hoffi i ni eu pwyso a'u mesur ymhellach.

Cyfleoedd o ran swyddi, sgiliau a datblygu busnesau

Mae Horizon eisiau clywed eich barn chi ynghylch sut byddai modd diwallu anghenion ein gweithwyr adeiladu o ran gwasanaethau meddygol a gofal iechyd. Er enghraifft, byddai modd darparu'r gwasanaethau hyn drwy wella'r gwasanaethau iechyd lleol sydd ar gael ar hyn o bryd gan eu rhannu â'r gweithlu adeiladu neu drwy ddarparu gwasanaethau ar wahân ar gyfer y gweithwyr adeiladu'n benodol.

GWEITHLU PROSIECT WYLFA NEWYDD

ADEILADU


Ar hyn o bryd rydyn ni'n meddwl y byddwn ni angen rhwng 8,000 a 10,000 o weithwyr adeiladu yn ystod y cyfnodau prysuraf. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr adeiladu yn Safle'r Orsaf Bŵer, Cyfleusterau Oddi ar y Safle'r Orsaf Bŵer a'r Datblygiadau Cysylltiedig.

Byddai angen gweithlu rheoli cyfleusterau ychwanegol i redeg ein safleoedd Llety Gweithwyr Dros Dro a'n cynigion Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig cysylltiedig. Rydyn ni'n disgwyl y byddai hyn yn cyrraedd tua 250 o bobl yn ystod y cyfnod adeiladu prysuraf.

Oherwydd natur amrywiol y gweithgareddau adeiladu drwy gydol y camau adeiladu, bydd amrywiaeth o swyddi ar gael fel:

- cynllunwyr, arolygwyr a pheirianwyr
- arbenigwyr morol ac amgylcheddol
- rheolwyr prosiect ac arbenigwyr diogelwch
- diogelwch eiddo
- technegwyr a gweithredwyr offer trwm
- gweithwyr arbenigol fel gosodwyr dur, gwneuthurwyr ffurfiau, weldwyr, sgaffaldwyr
- gwasanaethau cefnogi

Ar lefel uchel rydyn ni'n disgwyl bydd angen y nifer canlynol o weithwyr dros y cyfnod adeiladu:



Wrth i'r gwaith adeiladu symud at ddiwedd y rhaglen, rydyn ni'n disgwyl y bydd angen hyfforddi gweithwyr ar gyfer gweithredu'r Orsaf Bŵer. Rydyn ni'n meddwl y byddai'r hyfforddieon cynnar hyn yn rhannu eu hamser rhwng Safle'r Orsaf Bŵer a gorsafoedd pŵer gweithredol eraill fel rhan o'u hyfforddiant.

Byddai hyfforddiant y gweithwyr hyn yn gorgyffwrdd â chymau adeiladu a gweithredu'r Prosiect er mwyn sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol ar gael pan fydd eu hangen. Yn ystod y gorgyffwrdd, rydyn ni'n disgwyl y bydd nifer ein gweithwyr gweithredol yn tyfu wrth i nifer y gweithwyr adeiladu ostwng.

GWEITHREDU

Pan fydd ar waith yn llawn, rydyn ni'n disgwyl y bydd hyd at 850 o swyddi parhaol yn yr Orsaf Bŵer ar draws amrywiaeth eang o rolau. Rydyn ni wedi ymrwymo i weithio gyda darparwyr hyfforddiant a gwasanaethau presennol, gan gynnwys Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor, er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion ledled Gogledd Cymru gael cymwysterau addas i wneud cais am y swyddi byddwn ni'n eu creu.

Rydyn ni'n disgwyl y bydd angen y rolau canlynol er mwyn gweithredu'r Orsaf Bŵer.

- gweithredwyr a rheolwyr ar gyfer yr adweithyddion
- cynnal a chadw
- rheoli prosiectau a gweithrediadau
- peirianwyr a chymorth technegol fel cemegwyr, arbenigwyr diogelwch rhag ymbelydredd a pheirianwyr niwclear
- cymorth busnes a gweinyddol
- cyfleusterau a gwasanaethau cefnogol fel arlwy, glanhau, cynnal a chadw'r tir, peintio, lagio a sgaffaldiau
- diogelwch eiddo
- hyfforddwyr ar gyfer y gweithlu gweithredol

CYFNODAU SEGUR A CHYNNAL A CHADW

Rhaid cau pob adweithydd niwclear bob hyn a hyn er mwyn ei gynnal a'i gadw a'i ail-lenwi â thanwydd; cyfnod segur ydy'r enw ar hyn. Rydyn ni'n disgwyl y bydd hyn yn digwydd bob 18 mis ar gyfer pob UK ABWR, ar adegau gwahanol er mwyn sicrhau bod o leiaf un adweithydd yn cynhyrchu pŵer bob amser.

Rydyn ni'n disgwyl y byddai hyd at 1,000 o weithwyr ychwanegol yn cael eu cyflogi yn ystod y cyfnodau segur a fyddai'n para tua 25-30 diwrnod. Gallai'r amrywiaeth o swyddi rydyn ni'n eu disgwyl yn ystod cyfnodau segur gynnwys:

- peirianwyr a thechnegwyr cynnal a chadw
- criwiau cynnal a chadw arbenigol
- gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi i roi tanwydd newydd mewn ABWR
- gosodwyr
- lagwyr, sgaffaldwyr a gosodwyr ychwanegol
- staff gweinyddol, arlwy, glanhau a chynnal a chadw'r tir ychwanegol
- gyrwyr ychwanegol

Ar ôl bod ar waith am 60 o flynyddoedd, bydd cyfleoedd gwaith ychwanegol ar gael yn ystod y gweithgareddau datgomisiynu. Mae'n debyg y byddai'r rhain yn cynnwys staff cynnal a chadw a pheirianwyr am nifer o ddegawdau, ond ni fyddai'n golygu cynifer o weithwyr â'r cam gweithredu.

**RHAGOR O WYBODAETH**

Er mwyn hyfforddi ein gweithlu gweithredol ac arbenigol, rydyn ni'n cynnig adeilad Hyfforddi ac Efelychu a fyddai'n cynnwys dau efelychiad cwpas llawn o'r UK ABWR, ynghyd ag amrywiaeth o fannau hyfforddi ac ystafelloedd dosbarth. Byddai angen i'r adeilad hwn fod ar gael erbyn canol 2020 er mwyn rhoi digon o amser i hyfforddi'r set gyntaf o staff gweithredol cyn y gweithgareddau comisiynu. Mae lleoliad yr adeilad Hyfforddi ac Efelychu ar gael ar ein lluniau Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol ar dudalennau 18 i 20.

**RHAGOR O WYBODAETH**

Rydyn ni'n amcangyfrif y bydd tua 2,300 o'r gweithlu adeiladu yn dod o Ynys Môn a'r cymunedau cyfagos ar y tir mawr, sy'n gyfystyr â thua chwarter y gweithlu adeiladu ar yr adegau prysuraf. Nod ein Strategaeth Swyddi a Sgiliau ydy cynyddu'r cyfleoedd i'r bobl leol hyn gael yr hyfforddiant iawn, ac rydyn ni'n gobeithio y gallai hyn gynyddu'r nifer o gyfleoedd gwaith sydd ar gael i bobl leol.

**OEDDECH CHI'N GWYBOD?**

Bydd yr Orsaf Bŵer yn cynhyrchu pŵer yn gyson drwy gydol y cyfnod gweithredu felly byddai gweithredwyr a rheolwyr yn gweithio shiftiau er mwyn sicrhau bod yr orsaf ar waith 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos.

Cyfleoedd o ran swyddi, sgiliau a datblygu busnesau

STRATEGAETH SWYDDI A SGILIAU

Rydyn ni wedi datblygu Strategaeth Swyddi a Sgiliau i amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer recriwtio a hyfforddi er mwyn i ni allu darparu'r gweithlu angenrheidiol, o ran maint a sgiliau, i gyflawni ein rhaglen ar gyfer adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer.

Rydyn ni eisiau cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol ennill y sgiliau y byddwn ni eu hangen ac mae egwyddorion y Strategaeth Swyddi a Sgiliau yn adlewyrchu hyn.

Wrth i ni fireinio'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau, byddwn hefyd yn ystyried effeithiau'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.



YMGYSYLLTU A RECRIWTIO

Mae ein polisi recriwtio yn seiliedig ar egwyddorion cyfle cyfartal a rhinweddau unigolion, gan geisio denu'r ymgeisydd gorau ar gyfer unrhyw swydd benodol.

ADEILADU

Er mwyn adlewyrchu ein hymrwymiad i Ynys Môn a'r rhanbarth yn ehangach, mae ein Strategaeth Swyddi a Sgiliau a'n Strategaeth Ymgysylltu ag Addysg yn canolbwyntio ar hyfforddi ac addysgu ar y lefelau lleol a rhanbarthol er mwyn sicrhau bod pobl leol yn gallu bod yn barod i fanteisio ar gyfleoedd gwaith Prosiect Wylfa Newydd, ar yr adegau pan fyddwn ni angen gweithwyr.

Mae ein prif amcanion yn ymwneud ag ymgysylltu ag ysgolion a sefydliadau addysg uwch yn ogystal ag asiantaethau gyrfaedd a chyflogaeth yng Ngogledd Cymru.



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Rydyn ni wedi cytuno ar Femorandwm Cydddealltwriaeth gyda Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor sy'n golygu ein bod yn gallu datblygu ein rhaglenni i wella cyflogadwyedd myfyrwyr a graddedigion a hybu pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg, nawdd ac ymchwil wedi'i noddi.

GWEITHREDU

Fel rhan o'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau, rydyn ni wedi canolbwyntio ar alluogi trigolion lleol i gynnig am gyfleoedd swyddi parhaol. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo sgiliau o orsaf bŵer bresennol Magnox, rhaglenni graddedigion i annog pobl ifanc i aros yn eu cymunedau lleol, nawdd a hyfforddiant arbenigol a rhaglenni prentisiaethau.

Byddwn hefyd yn lansio cynllun prentisiaethau ac rydyn ni'n cynnig sefydlu broceriaeth cyflogaeth a fydd yn cysylltu pobl yng Ngogledd orllewin Cymru â swyddi ar Brosiect Wylfa Newydd. Gallai'r ymdrech hon gael ei harwain gan y Ganolfan Byd Gwaith a bydd Gyrfa Cymru yn cael eu gwahodd i gefnogi.

**CYFLEUSTERAU HYFFORDDI ARBENNIG**

Yn ogystal â'r Cyfleuster Hyfforddi ac Efelychu rydyn ni'n ei adeiladu i hyfforddi ein gweithlu, rydyn ni'n dal i weithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac eraill i edrych ar bosibiliadau defnyddio cyfleusterau sydd eisoes ar gael yng Ngogledd Cymru.

Un enghraifft ydy posibilrwydd defnyddio rhannau o'r Ganolfan Sgiliau Ynni yn safle Coleg Menai yn Llangefni er mwyn rhoi canolfan a lleoliad hyfforddiant ar gyfer prentisiaid peirianeg Horizon. Rydyn ni hefyd yn awyddus i archwilio cyfleusterau newydd yng Ngholeg Menai; posibilrwydd defnyddio neu ddatblygu cyfleusterau ym Mhrifysgol Bangor; a'r datblygiad sy'n cael ei gynnig ar gyfer Parc Gwyddoniaeth Gogledd Orllewin Cymru.

**RHAGOR O WYBODAETH**

Mae manylion ein rhaglenni prentisiaethau ac i raddedigion, yn ogystal â'r cyfleoedd nawdd rydyn ni'n eu cynnig yn cael eu hamlinellu yn y Daflen Ffeithiau ynghylch y Strategaeth Swyddi a Sgiliau sydd ar gael ar ffurf copi caled yn ein digwyddiadau ac ar ein gwefan yn: www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad

**CWESTIWN- SWYDDI A SGILIAU**

Ein nod ydy sicrhau y bydd ein gweithgareddau swyddi a sgiliau yn golygu bod o leiaf chwarter o'n gweithwyr adeiladu yn bobl sydd eisoes yn byw ar Ynys Môn neu'r cymunedau cyfagos ar y tir mawr.

Rydyn ni eisoes yn gweithio gydag ysgolion ar draws Ynys Môn a thu hwnt, gan ganolbwyntio'n benodol ar weithgareddau sydd wedi cael eu cynllunio i ennyn diddordeb plant mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg o oed cynradd i fyny, yn ogystal â rhoi cyngor i blant hŷn am ddewis pynciau a allai arwain at yrfaedd gyda Horizon.

Mae ein gweithgareddau ysgol yn plethu â'r cynlluniau sydd gennym i ddatblygu ein gwaith gyda Choleg Menai, Prifysgol Bangor a darparwyr hyfforddiant rhanbarthol eraill i sicrhau eu bod yn cynnal y mathau iawn o gyrsgau hyfforddi er mwyn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr i weithio ar ein Prosiect.

Gan feddwl am y wybodaeth hon a'r wybodaeth sydd yn ein Taflen Ffeithiau am ein Strategaeth Swyddi a Sgiliau, a wnewch chi nodi:

- beth rydych chi'n ei feddwl o'n cynigion ar gyfer addysg, swyddi a datblygu sgiliau*
- unrhyw syniadau sydd gennych chi i ni eu hystyried er mwyn sicrhau bod mwy o bobl leol yn manteisio ar y cyfleoedd.*

Cyfleoedd o ran swyddi, sgiliau a datblygu busnesau

DATBLYGU BUSNES

Ers cam cyntaf ein hymgyngoriad cyn ymgeisio, rydyn ni wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd datblygu busnes sy'n gysylltiedig â'n Prosiect. Mae'r rhain yn cynnwys:

- parhau i ymgysylltu â busnesau yn ein cymorthfeydd agored misol sy'n cael eu cynnal yng Nghemaes ac â'r rheini sydd eisiau bod yn gyflenwyr ar gyfer y Prosiect
- cefnogaeth ar gyfer cynadleddau a llwyfannau rhwydweithio busnes eraill gan gynnwys gweithgareddau ymgysylltu sy'n cael eu trefnu gan Raglen Ynys Ynni Ynys Môn a Llywodraeth Cymru
- cwblhau rhaglen beilot ar barodrwydd busnesau er mwyn ymgysylltu'n gynnar â busnesau lleol a rhanbarthol
- cynnal digwyddiad cadwyn gyflenwi cenedlaethol yn Llandudno ym mis Gorffennaf 2015



RHAGOR O WYBODAETH

Rhagor o wybodaeth: Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn rhan o gadwyn gyflenwi Prosiect Wylfa Newydd, cofrestrwch yn www.horizonnuclearpower.com/cofrestru-cyflenwyr

Categori	Y cydrannau arbenigol sy'n hollbwysig o ran diogelwch	Y prif gydrannau, systemau a chynnyrch	Nwyddau a deunyddiau sylweddol
Y dull gweithredu tebygol ar gyfer caffael	Cyflenwyr presennol llwyddiannus • Y prif offer a chydrannau niwclear fel cydrannau allweddol yr adweithyddion a systemau diogelwch • Offer y tyrbinau a'r generaduron • Y systemau rheoli	Chwilio am gyflenwyr galluog a chystadleuol, gan gynnwys yng Nghymru a'r DU  • Cydrannau mawr fel generaduron disel wrth gefn • Offer adeiladu cyffredinol fel lifftiau, offer gwresogi, awyru a chyflyru aer • Systemau ac offer fel pibellau a falfiau safonol, cyfnedwyr gwres a chywsgwyr aer	Tebygol o brynu yng Nghymru a'r DU  • Deunyddiau adeiladu a sifil fel agregau, sment a bariau atgyfnerthu • Offer adeiladu fel sgaffaldiau, craeniau ac offer symudol • Gosodiadau fel offer i ganfod tân / diogelu rhag tân, offer trydanol cyffredinol a systemau cyfathrebu • Nwyddau a deunyddiau adeiladu cyffredinol (gwaith dur, drysau, ysgolion, paent ac ati)
	Gweithio gyda chyflenwyr yn y DU i wella'r galluoedd ar gyfer y dyfodol		

Enghraifft o gyfleoedd caffael

SIARTER Y GADWYN GYFLENWI

Roedden ni wedi cyhoeddi ein Siarter Cadwyn Gyflenwi ym mis Gorffennaf 2015 ac mae'n nodi'r egwyddorion a'r ymddygiad gwaith y byddwn yn eu datblygu yn y gadwyn gyflenwi. Wrth baratoi'r siarter, rydyn ni wedi ystyried yr adborth a ddaeth i law drwy gam cyntaf ein hymgyngoriad cyn ymgeisio, polisi cadwyn gyflenwi Llywodraeth Cymru a'r DU, ac amcanion Horizon sy'n ymwneud ag adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd.



CYFLEOEDD CADWYN GYFLENWI A CHAFFAEL

Y tro diwethaf i ni holi am adborth am ein cynigion roedd y cynigion yn cynnwys awgrym y dylid ffafrio busnesau lleol ar gyfer contractau bach (cyfanswm dan £100,000). Rydyn ni wedi gwrandao ar eich adborth ar ein cynigion ac rydyn ni wedi newid ein polisi i gryfhau ein cefnogaeth ar gyfer busnesau lleol. Bydd yn rhaid i bob tendrwr nodi'r adnoddau lleol sydd ynghlwm.

Oherwydd maint y Prosiect, bydd angen caffael amrywiaeth enfawr o nwyddau a gwasanaethau.



CWESTIWN– CADWYN GYFLENWI

Er mwyn adeiladu a gweithredu ein Gorsaf Bŵer, bydd angen i ni ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau ar draws amrywiaeth eang o sectorau. Bydd rhai yn wasanaethau arbenigol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phŵer niwclear, ond bydd nifer o gyfleoedd yn ymwneud â gwaith adeiladu cyffredinol, rheoli cyfleusterau, gweinyddu, trafnidiaeth a diwallu anghenion o ddydd i ddydd ein gweithluoedd adeiladu a gweithredu.

Mae gennym siarter cadwyn gyflenwi sy'n nodi'r ymrwymadau ar gyfer cyfathrebu'n agored ac yn dryloyw â'n cadwyn gyflenwi a'r perfformiad rydyn ni'n ei ddisgwyl gan ein cyflenwyr. Nod y siarter ydy cefnogi cyfleoedd i'r busnesau sy'n ymwneud â'n Prosiect ddatblygu a gwireddu eu potensial ar gyfer parhau i dyfu'n gynaliadwy, gan gynnwys ehangu i farchnadoedd eraill. Rydyn ni hefyd yn bwriadu parhau â'n gwaith gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i rannu gwybodaeth am gyfleoedd y Prosiect, deall y sgiliau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol ac yn rhanbarthol a helpu busnesau i fod yn barod i gynnig am waith gyda ni.

Rhowch eich barn am:

- a) ein siarter cadwyn gyflenwi Mae hwn ar gael ar ein gwefan: www.horizonnuclearpower.com/cyflenwyr
- b) y ffordd rydyn ni'n bwriadu cefnogi cyfleoedd i ddatblygu busnesau
- c) ein cynigion ar gyfer prynu gwasanaethau i'n Prosiect.

Manteision Cymunedol

Bydd y Prosiect yn dod â buddsoddiad economaidd sylweddol i Ynys Môn ac i Ogledd Cymru. Ar ben hynny, rydyn ni'n canolbwyntio ar sicrhau manteision cadarnhaol i gymunedau Ynys Môn cyn ac yn ystod oes yr Orsaf Bŵer. Ers cam cyntaf ein hymgyngoriad cyn ymgeisio rydyn ni wedi gweithio'n galed gyda Chyngor Sir Ynys Môn i ddod o hyd i ffordd o greu a darparu'r manteision hyn.

Bydd manteision cymunedol yn cael eu darparu mewn tair ffordd:

- **Manteision cynhenid:** Dyma'r manteision a fydd yn digwydd oherwydd bod y Prosiect yn digwydd ac maen nhw'n cynnwys pethau fel gwella sgiliau'r gweithlu lleol, creu cyfleoedd gwaith a thyfu'r gadwyn gyflenwi leol.
- **Manteision cynllunio:** Dyma'r manteision sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosesau caniatâd cynllunio a gorchymyn cydsyniad datblygu. Mae'r rhain yn cael eu gwneud drwy broses gyfreithiol o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac mae modd eu defnyddio i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol. Rhaid iddyn nhw fod â chysylltiad uniongyrchol â rhoi caniatâd cynllunio. Mae manteision o'r fath yn gallu cynnwys gwella trafnidiaeth neu gyfraniadau at wasanaethau iechyd neu argyfwng lleol. Bydd lefel y manteision cynllunio'n dibynnu ar ganfyddiadau ein gwaith asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg, yr asesiad amgylcheddol a'r asesiad o'r effaith ar iechyd a fydd yn parhau hyd at ein cais am orchymyn cydsyniad datblygu
- **Manteision gwirfoddol:** Mae'r rhain yn gamau ac yn gyfraniadau gwirfoddol rydyn ni'n gallu eu gwneud. Mae hyn yn cynnwys pethau fel cyfrannu arian gennym i gefnogi cymunedau Ynys Môn neu ymrwymo amser ac adnoddau i raglenni addysg a hyfforddiant. Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn strategaeth sy'n ymwneud â darparu'r mathau hyn o fanteision ar gyfer datblygiadau mawr ar Ynys Môn. Ar ben hynny, mae gennym ni Gynllun Rhoddion Elusennol a Nawdd Cymunedol ar waith yn barod sy'n rhoi grantiau i brosiectau lleol. Wrth i'r Prosiect symud yn ei flaen, byddwn yn dal i adolygu ein hymrwymadau manteision cymunedol gwirfoddol.



Rydyn ni'n ystyried ei bod hi'n bosibl i'r canlynol ddarparu manteision cadarnhaol i Ynys Môn i'r dyfodol:

- **Cyflogaeth:** Bydd y Prosiect yn darparu llawer iawn o swyddi ar draws Ynys Môn yn yr Orsaf Bŵer ac mewn meysydd cefnogol fel arlwyyo, rheoli cyfleusterau a logisteg. Bydd y cyfleoedd hyn yn helpu i leihau'r angen i bobl ifanc adael yr Ynys er mwyn dod o hyd i waith o safon a bydd yn denu pobl a oedd yn arfer byw yma yn eu hôl
- **Cadwyn Gyflenwi:** Rydyn ni wedi gwario tua £5 miliwn gyda chyflenwyr sydd â'u pencadlys yng Nghymru a byddwn ni'n dal i ymwneud â chyflenwyr posibl wrth i'r Prosiect ddatblygu
- **Cynllun prentisiaethau:** Byddwn ni'n lansio ein cynllun prentisiaethau ym mis Medi 2016 mewn partneriaeth â Choleg Menai a fydd yn gysylltiedig â'r gwaith o ddiwallu ein hanghenion gweithredol yn y dyfodol. Rydyn ni'n disgwyl y bydd o leiaf 250 o brentisiaethau newydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r Prosiect. Rydyn ni'n dal i ddatblygu ein syniadau o ran adeiladu, gan weithio gyda'n darpar gadwyn gyflenwi
- **Nawdd mewn addysg:** Rydyn ni'n bwriadu datblygu rhaglen nawdd ar gyfer pobl ifanc a myfyrwyr sydd eisiau astudio disgyblaethau sy'n ymwneud â'r Prosiect



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Rydyn ni wedi buddsoddi £450,000 yn barod yng nghynllun Cwmni Prentis Menai.

Mae'r buddsoddiadau cymunedol gwirfoddol rydyn ni wedi'u gwneud yn barod yn cynnwys:

- Canolfan Dreftadaeth Cemaes – darparu offer ar gyfer yr adeilad sydd wedi cael ei adnewyddu
- Ysgol Parc y Bont – datblygu gardd bywyd gwyllt fel adnodd dysgu yn yr awyr agored
- Môn FM – prynu offer newydd ar gyfer yr orsaf radio gymunedol
- Cylch Meithrin Amlwch – talu am offer ar gyfer y cylch meithrin Cymraeg



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Roedden ni wedi lansio ein polisi ar gyfer rhoddion elusennol a nawdd yn 2014 ac rydyn ni wedi buddsoddi dros £75,000 yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar elusennau, ar ysgolion ac ar fudiadau cymunedol sydd eisiau gwneud cais am grantiau bach. I gael manylion am ein cynllun, ein meini prawf a ffurflen gais, edrychwch ar y wefan: <http://www.horizonnuclearpower.com/cefnogir-gymuned>



RHAGOR O WYBODAETH

Rydyn ni'n bwriadu adeiladu canolfan ymwelwyr newydd wrth ymyl ffordd fynediad newydd yr Orsaf Bŵer. Bydd hyn yn rhoi golygfeydd at yr Orsaf Bŵer a chysylltiadau at y llwybrau troed a fydd yn cefnogi ei defnyddio fel cyrchfan ar gyfer twristiaid. Rydyn ni hefyd yn bwriadu defnyddio'r ganolfan ymwelwyr fel canolfan addysg i blant ysgol.

Ymddangosiad yr Adeiladau

STRATEGAETH BENSARNIOL


Ers cam cyntaf ein hymgyngoriad cyn ymgeisio, rydyn ni wedi dal ati i ddatblygu ein Strategaeth Bensaernïol sydd wedi cael ei dylunio i roi fframwaith o ddeunyddiau mae modd i ddylunwyr unrhyw rai o adeiladau Prosiect Wylfa Newydd eu defnyddio.

Mae modd defnyddio'r deunyddiau hyn ar draws yr holl adeiladau unigol a bydd hyn yn helpu i greu ymddangosiad gweledol cydlynol ar draws y Prosiect. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod y deunyddiau sy'n cael eu defnyddio ar ein hadeiladau'n adlewyrchu'r deunyddiau sydd ar gael yng nghymuned Ynys Môn a gerllaw.

Mae enghraifft o'r paletau deunyddiau rydyn ni wedi'u creu yn cael eu dangos yn y canlynol:




Walïau llen wydr



Wyneb copr




Llechi wedi'u pentyrru



Llechi Cymreig



Cladin cyfansawdd



Concrit agored



Cerrig Cymreig



Brics peirianeg glas



CWESTIWN - CYNLLUN MEISTR PENSAERNIOL

Rydyn ni wedi darparu delweddau sy'n dangos ffordd bensaernïol o drin tri o'n hadeiladau a fydd yn cael eu defnyddio'n aml gan y cyhoedd neu'n cael eu gweld gan bobl sy'n defnyddio ffyrdd neu hawliau tramwy cyhoeddus lleol. Ym mhob achos, rydyn ni wedi dangos dewisiadau deunyddiau 'beiddgar' ac sy'n 'gweddu'.

Gan ddefnyddio'r lluniau enghreifftiol hyn, ticiwch y blychau i ddangos a ydy hi'n well gennych chi ddeunyddiau beiddgar neu sy'n gweddu ac wedyn eglurwch pam.

- | | | |
|--|----------|--------|
| a) Adeilad gweinyddu | BEIDDGAR | GWEDDU |
| b) Canolfan ymwelwyr | BEIDDGAR | GWEDDU |
| c) Llety gweithwyr dros dro ar y safle | BEIDDGAR | GWEDDU |

Rhowch eich rhesymau hefyd.





RHAGOR O WYBODAETH

Er mwyn ymateb i'r adborth a ddaeth i law yn ystod cam cyntaf ein hymgyngoriad cyn ymgeisio, rydyn ni wedi paratoi enghreifftiau gweledol o'r hyn gallai ein palet o ddeunyddiau ei greu ar gyfer adeiladau penodol. Serch hynny, mae'n bwysig deall ei bod hi'n debyg y bydd dyluniad yr adeiladau hyn yn newid ar sail eich adborth chi ac ar sail rhagor o ymgynghori â sefydliadau fel Cyngor Sir Ynys Môn a Chomisiwn Dylunio Cymru.






ADEILAD GWEINYDDU



ANOLFAN YMWELWYR



LLETY GWEITHWYR DROS DRO AR Y SAFLE



Rhoi eich adborth

SUT MAE CYFLWYNO EICH ADBORTH

Mae eich ymateb chi yn rhan bwysig iawn o'n proses ymgynghori gyffredinol ac mae croeso i chi gyflwyno eich ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg. Rydyn ni'n edrych ymlaen at gael eich safbwyntiau yn bersonol neu'n ysgrifenedig erbyn 24 Mawrth 2016.

Mae sawl ffordd i chi ymateb:

- **Drwy ffurflen adborth** sydd ar gael yn ein digwyddiadau gwybodaeth ac ar-lein yn: www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad. Mae'r rhain ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
- **Yn ysgrifenedig** i'r cyfeiriad rhadbost **FREEPOST Horizon Nuclear Power Consultation**
- **Drwy e-bost** at ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com neu wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com

Mae gennym hefyd linell radffôn Gymraeg a Saesneg i ateb eich cwestiynau a'ch ymholiadau unrhyw bryd. Gallwch chi gysylltu â ni ar: **0800 954 9516**.

Gwnewch yn siŵr bod eich adborth yn ein cyrraedd erbyn 24 Mawrth 2016.

DIGWYDDIADAU

Dewch draw i unrhyw un o'r digwyddiadau byddwn ni'n eu cynnal. Maen nhw'n cynnwys arddangosfeydd cyhoeddus, gweithdai a'n cymorthfeydd misol rheolaidd. Bydd pob un o'r digwyddiadau hyn yn ddwyieithog. Er ei bod hi'n bosibl y bydd yr amser a'r lleoliadau'n gallu newid, bydd rhestr gyfredol o fanylion y digwyddiadau ar gael ar ein gwefan yn www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad

Rydyn ni wedi ceisio trefnu nifer o fformatau, lleoliadau ac amseroedd gwahanol i wneud yn siŵr eich bod yn cael cyfle i ddod i sgwrsio â'n tîm, cael gwybodaeth neu roi eich barn. Os ydych chi angen i ni ymweld â'ch cartref, cysylltwch â ni ar **0800 954 9516** neu ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com ac fe wnawn ein gorau glas i drefnu i ddod i ymweld â chi yn eich cartref.



Y DOGFENNAU SYDD AR GAEL FEL RHAN O'R DIWEDDARIAD HWN AR Y PROSIECT

Mae'r dogfennau canlynol ar gael (yn Gymraeg ac yn Saesneg) i chi eu darllen:

- Y ddogfen hon, Diweddariad ar Brosiect Wylfa Newydd
- Taflenni Ffeithiau i grynhoi ein dulliau gweithredu strategol a gwybodaeth am bynciau mae pobl yn aml yn gofyn cwestiynau amdanyh nhw
- Crynodeb o'r Adborth i Gam Un yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio

Mae'r holl ddogfennau ar gael ar ein gwefan yn: www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad.

CYSYLLTWCH Â NI:

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu adborth am Brosiect Wylfa Newydd gallwch chi gysylltu â ni ar ein llinell gymorth radffôn Wylfa Newydd arbennig a'n cyfeiriad e-bost, drwy ffonio **0800 954 9516** neu e-bostio **ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com**

.....

Horizon Nuclear Power
5210 Valiant Court
Gloucester Business Park
Delta Way, Gloucester, GL3 4FE
Ff +44 (0) 845 300 6816
www.horizonnuclearpower.com/hafan

Mae'r holl ddeunydd sydd yn y ddogfen hon, oni nodir fel arall, yn hawlfraint i Horizon Nuclear Power Wylfa Ltd ac ni cheir ei atgynhyrchu heb ganiatâd ymlaen llaw. Gall defnyddio neu gopïo'r deunydd heb awdurdod mewn unrhyw ffordd dorri rheolau nod masnach, hawlfraint a hawliau eiddo eraill a statudau sifil a throseddol. Ni cheir defnyddio'r deunydd mewn unrhyw ffordd sy'n torri unrhyw nod masnach, hawlfraint na hawliau eiddo eraill ac mae Horizon Nuclear Power Wylfa Ltd yn cadw pob hawl mewn perthynas â defnyddio heb awdurdod o'r fath.